Cyd Arolygiad o Dimau Troseddwyr Ifanc
Adroddiad Diwedd Rhaglen
2003-2008

Rhagair

Mae Gwasanaethau a Thimau Troseddwyr Ifanc (TTIau) yn sefydliadau partneriaeth uchelgeisiol sy'n gwneud gwaith estynnol gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu neu rai y tybir eu bod yn debygol o droseddu. Mae gofyn felly i TTIau fod yn effeithiol mewn dau faes gwaith sydd, er yn wahanol, eto'n gorgyffwrdd, gyda'r naill a'r llall yn rhai sy'n destun pryder sylweddol i'r cyhoedd o bryd i'w gilydd: cyfiawnder troseddol a gwasanaethau plant. Mae TTIau yn cael eu hadnoddu'r bur dda, gyda chyfartaledd nifer yr achosion fesul ymarferydd lai na hanner yr hyn ydyw mewn timau prawf, felly mae'n rhesymol disgwyl iddynt gyflawni eu gwaith anodd at safon uchel.

Yn unol â hynny, aeth partneriaeth o arolygiaethau yng Nghymru a Lloegr ati i ymgymryd â rhaglen i arolygu pob TTI yn y ddwy wlad rhwng 2003 a 2008 ac, ar eu rhan, fy mhleser yw cyflwyno'r adroddiad hwn sy'n adolygu'r rhaglen arolygu yn ei chyfanrwydd. Er i feini prawf ein harolygu fod yn briodol o lym, credwn i ni hefyd ganiatáu'n ddigonol ar gyfer natur esblygol gwaith ym maes troseddwyr ifanc, ac rydym wedi cymryd pob gofal i sicrhau bod yr un pwys yn cael ei osod ar agweddau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau plant y gwaith. Mae'r adroddiad hwn yn llongyfarch TTIau am y cynnydd amlwg y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'i wneud dros y pum mlynedd diwethaf, ond gan nodi hefyd (gobeithio) lle mae dal angen sicrhau cynnydd.

Cyflawnodd y rhaglen arolygu hon ei phwrpas 'trosolwg cyffredinol', fe gredwn, a bydd ei rhaglen olynol yn sylweddol wahanol. Gyda sawl agwedd ar waith ym maes troseddwyr ifanc yn cael eu mesur yn rheolaidd erbyn hyn trwy ddulliau eraill, byddwn yn osgoi dyblygu hyn drwy gyfeirio'r rhan fwyaf o'n sylw i'r dyfodol ar feysydd lle mae arolygu'n ychwanegu gwerth unigryw, ac ar feysydd lle mae pryderon Gweinidogion a'r cyhoedd yn arbennig o sensitif: *Amddiffyn y Cyhoedd* a *Diogelu.* Yn y cyfamser, ein nod gyda'r adroddiad hwn yw sicrhau bod modd dysgu o wersi ein trosolwg o'r pum mlynedd diwethaf, a gweithredu arnynt.

Andrew Bridges
Prif Arolygydd Prawf EM
Mawrth 2009

Cyflwyniad

Erbyn hyn, yn dilyn y Cyd Adolygiad Ardal a'r Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr yn Lloegr, mae'r broses o gyd arolygu yn un hynod gyfarwydd. Ond pan oedd yr arolygiad o Dimau Troseddwyr Ifanc (TTIau) yn cael ei sefydlu yn 2002, roedd yn gysyniad newydd iawn. Cafwyd rhai ymdrechion blaenorol i weithio ar y cyd, a'r rheiny wedi'u cyfyngu i ddyrnaid o arolygiadau thematig unigol. Roedd y rhain, fel arfer, yn ymwneud â dwy arolygiaeth ar y mwyaf, ac roeddent yn canolbwyntio ar faes diddordeb cyffredin, megis *Through the Prison Gate*, yr adolygiad thematig ar y cyd a gyflawnwyd gan AEM Carchardai ac AEM Prawf, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2003. Yn sicr, nid oedd neb wedi ceisio sefydlu rhaglen arolygu perfformiad, a oedd yn cynnwys saith arolygiaeth yn arolygu Cymru a Lloegr i gyd. Yr oedd yn ymgymeriad uchelgeisiol.

Roedd yr anawsterau logistaidd yn sylweddol. Roedd y TTIau yn sefydliadau cymharol newydd, a sefydlwyd dan Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998, ac roeddent dal yn y broses o gael eu creu. Ychydig iawn a wyddid am eu strwythur na'u trefniadaeth. Ceid amheuaeth hyd yn oed ynghylch faint ohonynt a oedd yn bodoli, gan fod rhai yn y broses o gyfuno â thimau cyffiniol, gydag eraill yn rhannu'n endidau gwahanol; roedd amcangyfrifon ar y pryd yn amrywio o rhwng 155 i 158. Fodd bynnag, yr oeddent yn sefydliadau cwbl unigryw a oedd yn cynnwys timau aml-asiantaeth yn rhychwantu iechyd, gwasanaethau plant a chyfiawnder troseddol, gan adrodd i Brif Weithredwr yr awdurdod lleol, ond dan fantell Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid canolog.

Adeg sefydlu'r arolygiad, roedd trefniadau rheoli perfformiad y timau newydd hyn dal yn eu babandod, gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, yn gwbl briodol, yn canolbwyntio ei sylw ar ddatblygu a gweithredu cyfrwng asesu cyffredin, a elwid yn Ased. Fodd bynnag, yr oedd system genedlaethol ar gyfer casglu data wedi'i sefydlu, ond nid oedd defnyddio gwybodaeth i fonitro perfformiad sefydliadau eto wedi'i wreiddio ar draws yr amrywiol dimau, felly roedd amheuaeth ynglŷn â pha mor ddibynadwy oedd y data. Roedd yr holl staff yn newydd i'w swyddi. Roedd nifer ohonynt, gan gynnwys nifer o reolwyr TTI, wedi dod o dimau cyfiawnder ieuenctid neu brawf blaenorol, ond roedd canran sylweddol o weithwyr, megis y rheiny â chefndir ym maes iechyd, yn brin, neu'n gwbl amddifad, o brofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu. Elfennol oedd unrhyw hyfforddiant oedd ar gael.

Roedd arolygu TTIau felly'n her sylweddol i Arolygiaeth Prawf EM a'i chyd-arolygiaethau. Roedd diddordeb gwleidyddol ym mherfformiad TTIau yn uchel, ac unwaith y cytunwyd ynghylch y nawdd angenrheidiol yn Ionawr 2003, disgwylid i'r arolygiad ddechrau ar unwaith, er i amserlen Ebrill gael ei hymestyn yn nes ymlaen i Fedi 2003. Y cyfyng gyngor yr oedd TTIau yn ei achosi i'r tîm arolygu oedd sut i sefydlu rhaglen arolygu ar gyfer sefydliadau a oedd yn dal i ddatblygu, heb fygu menter ac arloesi, ond gyda digon o graffu i sicrhau Gweinidogion a, thrwyddynt hwy, y cyhoedd,

bod y TTIau yn gweithio'n effeithiol i fynd i'r afael â throseddu gan blant a phobl ifanc, a brwydro'n ei erbyn.

Penderfynasom felly y byddai'r arolygiad yn cael ei ddatblygu dros nifer o gamau mewn rhaglen bum mlynedd. Byddai'r cyntaf, wedi'i gyfyngu i 15 TTI, yn canolbwyntio ar feincnodi perfformiad a byddai ei ganfyddiadau yn cael eu defnyddio fel sail i ddatblygu'r camau dilynol. Gofynnwyd i TTIau gynnig eu hunain ar gyfer y rhan hon o'r arolygiad, ac mae lle i ganmol y 30 a wnaeth hynny. Rhedwyd dau arolygiad peilot, yn Bolton a Luton, a bu'r rhain, diolch i haelioni ac ysbryd ymgysylltu Prif Weithredwyr, rheolwyr TTI a staff y naill a'r llall, yn amhrisiadwy o ran gyrru'r rhaglen yn ei blaen. Dechreuodd yr arolygiad wedi hynny, gyda TTIau Halton a Warrington a Sheffield y rhai cyntaf i gael eu harolygu'n ffurfiol.

Gwnaed addasiadau ar ôl y cam cyntaf hwn o'r rhaglen arolygu, yn bennaf er mwyn cysylltu'r mecanwaith graddio gyda mecanwaith yr Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr a oedd yn cael ei weithredu, ar y pryd, mewn awdurdodau lleol gan y Comisiwn Archwilio, a sicrhau bod y broses yn cydweddu â'r amrywiol drefniadau llywodraethu yng Nghymru, gan gynnwys y Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a weithredwyd ledled awdurdodau lleol yng Nghymru gan Swyddfa Archwilio Cymru. Daeth y prif newid i raglen arolygu TTI yn Lloegr gyda dyfodiad y trydydd cam, pan gytunwyd ynghylch trefniadau yn Lloegr y byddai canfyddiadau'r rhaglen yn bwydo'n uniongyrchol i ganfyddiadau Cyd Adolygiad Ardal o wasanaethau plant a, thrwy hynny, i Asesiad Perfformiad Blynyddol ac Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr yr ardal. Daeth y newidiadau hyn ag arolygiad TTI a, thrwy hynny, y TTIau yn Lloegr, yn llwyr o fewn cylch gwaith arolygu awdurdod lleol. Roedd y trefniadau yng Nghymru'n wahanol, ond gwnaethom barhau i ddatblygu ein cysylltiadau a chydlynu ag arolygiaethau Cymru er mwyn sicrhau perthynas waith glos.

Gellid dweud felly bod datblygiad rhaglen arolygu TTI yn adlewyrchu datblygiad y TTIau eu hunain, neu o leiaf yn rhedeg yn gyfochrog â'r datblygiad hwnnw. Yr hyn a gyflawnodd yn Lloegr, yn arbennig, oedd gosod TTIau yn gadarn ar fap yr awdurdod lleol a phrysuro'r broses i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn rhan anhepgor o gyfraniad yr awdurdod at waith gyda phlant a phobl ifanc ar y naill law ac at leihau troseddu ar y llall. Rhoddodd drosolwg o berfformiad a, fel y bwriadwyd, sefydlodd feincnodau er mwyn gallu asesu cynnydd yn eu herbyn i'r dyfodol.

> *"Mae'r broses arolygu gyfan wedi'i gwneud mewn ffordd sy'n hyrwyddo brwdfrydedd a datblygu ymarfer da yn ein gwaith. Dyna fy argraff i. Felly (roedd yr arolygiad) yn broffesiynol yn y ffordd y cafodd ei gynnal yn gyffredinol."* Rheolwr achos

Tîm Arolygu 2003 - 2008

Gydol y rhaglen, cyflawnwyd arolygiadau gan:

- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru *(yr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gynt)*
- Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol *(wedi'i gyfuno ag Ofsted yn awr)*
- Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru)
- Comisiwn Gofal Iechyd
- Arolygiaeth Gofal Iechyd yng Nghymru
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM
- Arolygiaeth Carchardai EM
- Arolygiaeth Prawf EM
- Ofsted (y Swyddfa dros Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau)

Lleolwyd y rhaglen arolygu TTI o fewn, a dan arweiniad, Arolygiaeth Prawf EM. Y tri Phrif Arolygydd Cynorthwyol a fu'n rheoli hyn dros y tair blynedd oedd Liz Calderbank, Julie Fox ac Alan MacDonald.

Cyflawnwyd arolygiadau gan:

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Sheila Booth, John Llewellyn Thomas

Comisiwn Arolygiaeth Gofal Cymdeithasol

Rhona Bradley, Yvette King, Karen McKeown, Vivienne O'Neale, Dan Parks
Cydlynwyd gan Chris Batty

Estyn

Rachael Bubalo, Linda Howells, Gerard Kerslake, Betsan O'Connor, Roger Rowett, Janice Thomas
Cydlynwyd gan Sylvia Lindhoe, Bernard O'Reilly, Maggie Turford a Claire Yardley

Comisiwn Gofal Iechyd

Liz Adamson, Katie Bosworth, Gordon Burton, Margaret Dexter, Alicia Etchegoyen, David Fruin, Judith Harvey, Christine Hopton, Raj Kathane, Diane Lukeman, Olatokunbo Sangowawa, Roger Thompson, Rob Willoughby
Cydlynwyd gan Maddie Blackburn, Justin Thacker a Fergus Currie

Arolygiaeth Gofal Iechyd yng Nghymru

Mary Browning, Jane Harris, Rowena Myles
Cydlynwyd gan Ann Bateman

Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM

Steve Blackburn, Steve Glass, Mike Mullis, Glen Suttenwood
Cydlynwyd gan Rita Tucker, Gary Boughen a Nick Budden

Arolygiaeth Carchardai EM

Ian MacFadyen
Cydlynwyd gan Fay Deadman

Arolygiaeth Prawf EM

Sarah Ashworth, Jane Attwood, Jo Bergdahl, Suki Binning, Helen Boocock, Mark Boother, John Browne, Trevor Brunton, Rose Burgess, Melva Burton, Malcolm Bryant, Helen Cash, Ben Clark, Lisa Cox(McDowell), Penny Davies, Paddy Doyle, Sandra Fieldhouse, Krystyna Findley, Julie Fox, Martyn Griffiths, Pam Hill, Jude Holland, Stephen Hubbard, Keith Humphreys,Martin Jolly, Kam Kaur, Sally Lester, Iolo Madoc-Jones, Shirley Magilton, Sarah Mainwaring, Stephanie Mason, Lisa McDowell, Yvonne McGuckian, Ian Menary, Chris Mills, Nicola Molloy, Joy Neary, Rachael Odunze, Vivienne O'Neale, Keith Redfern Humphreys, Tony Rolley, Karen Rooney, Nigel Scarff, Ushma Sharma, Nikki Shave, Joseph Simpson, Andy Smith, Dorothy Smith, Les Smith, Jean Stroud, Ray Wegrzyn, Paula Williams, Steve Woodgate

Ofsted

Louise Atkin, Jane Brook, Jon Bowman, Mary Dudley, Paul Johnson, Anne Keelan Towner, Bill Massam, Maureen McDaid, Bob Roberts, David White, Phil Whittaker
Cydlynwyd gan Stella Butler

Cefnogwyd y rhaglen arolygu gan Pippa Bennett, Lynn Carroll, Kirk Davis, Natalie Dewsnap, Grace Dickin, Rachel Dwyer, Saima Ejaz, Jean Hartington, Deborah Hood (Hewitt), Kate Hurn, Oliver Kenton, Anita McGuckin, Maura O'Brien, Alex Pentecost, Zach Rathore, Junior Rhone

Methodoleg yr arolygu

Wrth i'r TTIau ddatblygu, felly hefyd y fethodoleg - dros bedwar cam y broses. Elfen gyffredin gydol y pum mlynedd fu set o feini prawf arolygu a esblygodd dros y cyfnod i ddarparu'r meincnod y barnwyd y bartneriaeth TTI (fel y'i gelwir yn awr) yn ei erbyn, er bod y meini prawf eu hunain wedi ymestyn rywfaint dros y pum mlynedd. Yn yr un modd, elfen gyffredin arall oedd y ffocws ar edrych ar ymarfer gyda phlant a phob ifanc, drwy astudio ffeiliau a siarad â rheolwyr achos. Er mwyn adlewyrchu datblygiad TTIau eu hunain, roedd cam olaf yr arolygiad yn cynnwys adrannau estynedig a mwy manwl ar iechyd, cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg, *Diogelu*, gwaith ataliol, adroddiadau cyn-dedfrydu a dioddefwyr a chyfiawnder adferol. Roedd y rhain i gyd wedi'u cynnwys yn y pum adran â sgôr:

- Gwaith yn y llysoedd
- Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned
- Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun dedfrydau o gaethiwed
- Dioddefwyr a Chyfiawnder Adferol
- Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.

Fel ymateb i geisiadau gan TTIau, cafodd gwaith ataliol yng Ngham 4 ei sgorio ar wahân i waith gyda'r rheiny a oedd wedi troseddu, fel y digwyddodd gyda gwaith gyda rhieni/gofalwyr ac ymgynghori/canlyniadau. Ehangwyd yr adran olaf a enwyd er mwyn cydnabod pwysigrwydd canlyniadau.

Cynllunio arolygiad

Parhaodd y broses o drefnu a chyflawni gwaith maes yn ddigyfnewid mwy na heb gydol y rhaglen bum-mlynedd. Dechreuai â chyfarfod cynllunio, ar y safle fel arfer, tystiolaeth ymlaen llaw (hunanasesiad a darparu tystiolaeth yn erbyn nifer o feini prawf), sefydlu rhaglen feddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer plant a phobl ifanc, ac arolygiad, gan yr arolygydd arweiniol, o ddata Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac, yng Ngham 4, gwybodaeth ddiweddaredig gan bob Pennaeth Rhanbarth yn Lloegr a Phennaeth Cymru.

Gwaith maes

Roedd swmp y gwaith maes yn gweld ein staff arolygu yn arolygu sampl o gofnodion achos, a chyda bob achos, yn eistedd i lawr gyda'r rheolwr achos unigol i drafod yr achos yn fanwl. A dibynnu ar y math o achos a pha mor ddyrys ydoedd, gallai hyn gymryd hyd at ddwy awr a hanner yr achos. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar dri cham: asesu a chynllunio, ymyriadau a chanlyniadau. Yng Nghymru, cynigiwyd y rhain, a chyfweliadau eraill, drwy gyfwng yr iaith Gymraeg. Ehangwyd y sampl achosion yng Ngham 4, ac ymgorfforwyd adran ychwanegol i'r cyfweliadau hyn, lle gofynnid i reolwyr achos am ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth yn y TTI a mynediad at ddatblygiad a hyfforddiant staff.

Gwnaethom gyfweld â defnyddwyr gwasanaeth (plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr), gan alluogi i ni glywed o lygad y ffynnon yr hyn yr oedd y grwpiau hyn yn ei feddwl o'r gwaith a wnaed gyda nhw ac a oeddent wedi teimlo iddynt gael eu grymuso a'u cefnogi i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol yn eu bywyd yn sgîl ymyriad y TTI.

Mewn cyfweliadau gyda staff a rheolwyr, holasom am faterion megis ansawdd hyfforddiant, goruchwyliaeth a gwaith partneriaeth.

Tua diwedd yr wythnos o waith maes, pan fyddem wedi cael darlun clir o berfformiad y TTI, roeddem yn cyfweld â rheolwyr a phartneriaid strategol, ar Fwrdd Rheoli'r TTI, yn ogystal â'r rheiny mewn sefydliadau statudol. Ein pwrpas oedd asesu faint oedd yr unigolion hyn yn ei wybod am y busnes yr oeddent yn ei reoli, a oeddent yn dal y rheolwr TTI i gyfrif, ac a oedd yr holl bartneriaid yn cyfrannu'n weithredol at waith a datblygiad gwasanaethau TTI.

Paratoi'r Adroddiad

Canlyniad yr arolygiad fu paratoi'r adroddiad yn dynodi ein dyfarniadau a chanfyddiadau. Roeddem yn pwysleisio tasg allweddol y TTI o atal troseddu, ond o fewn fframwaith holistaidd, gan gydnabod bod y broses hon yn ymdrin â sawl ffactor gwahanol, gan gynnwys lefel aeddfedrwydd, iechyd, addysg, teulu a chydberthnasau personol, ffordd o fyw, cymdogaeth a meddylfryd ac ymddygiad y plentyn neu berson ifanc, yn enwedig eu hagweddau at droseddu a'u symbyliad i newid. Talasom sylw arbennig i'r nifer gymharol fach hynny o blant a phobl ifanc a allai fod yn *Risg o Niwed i eraill*, ac i *Ddiogelu* plant a phobl ifanc a allai fod yn fregus.

Yn fwy diweddar, gyda sefydlu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a chyd-leoli cyfiawnder ieuenctid dan agendâu cyfiawnder plant a chyfiawnder troseddol yn Lloegr, anfonasom yr adroddiad at yr Ysgrifenyddion Gwladol dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd, a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Gyda'r arolygiadau yng Nghymru, anfonwyd yr adroddiad at ddau Weinidog, a oedd yng ngofal Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Derbyniodd Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol lleol gopi, yn ogystal â sefydliadau ac unigolion perthnasol eraill.

Cynlluniau ar gyfer gwella

Fel ymateb i'n hargymhellion, cynhyrchodd pob TTI gynllun ar gyfer gwella a gafodd sêl bendith yr arolygydd arweiniol a'i drosglwyddo i Bennaeth Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Rhanbarth Lloegr neu Bennaeth Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru i'w fonitro.

Canlyniadau ac effaith

Nododd blynyddoedd cynnar yr arolygiad nifer o gyflawniadau cadarnhaol ar ran y TTIau. Cynyddodd cyswllt gyda phlant a phobl ifanc ac roedd mwy o bwyslais yn cael ei osod ar gydymffurfio. Roedd pryderon ynglŷn â materion yn ymwneud ag iechyd ac addysg yn fwy tebygol o gael sylw. Roedd ansawdd gwael yr Asedau a oedd yn cael eu cwblhau, o ran cywirdeb yr asesiad a defnydd y cyfrwng asesu hwn, y naill a'r llall, yn parhau i godi amheuaeth ynghylch gallu TTIau i ganfod a mynd i'r afael ag

anghenion plant a phobl ifanc. Roedd pryderon eraill yn canolbwyntio ar y diffyg blaenoriaeth a oedd yn cael ei roi i faterion yn ymwneud â *Diogelu* a'r *Risg o Niwed i eraill* ac roeddent yn codi amheuon ynghylch gallu rhai TTIau i fabwysiadu agwedd 'gymesur â risg' at eu gwaith. Er i ni weld rhai gwelliannau, mae gwaith eto i'w wneud er mwyn cyrraedd safon gyson uchel o ran *Risg o Niwed i eraill* a *Diogelu* ledled pob TTI.

Mae canran y plant a phobl ifanc na chyflawnodd droseddau pellach yn ystod eu cyswllt â'r TTI wedi parhau ar lefel gyffelyb, oddeutu dau draean, gydol y rhaglen arolygu.

Effaith arolygiadau
Nid yw'n syndod bod y disgwyliadau a roddwyd ar TTIau gan Weinidogion a'r cyhoedd, fel ei gilydd, dros bum mlynedd yr arolygiad, wedi cynyddu ac mae'r newidiadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y rhaglen arolygu. Mae'r TTIau a arolygwyd yn y cam olaf wedi cael mwy o amser i ddatblygu eu gwasanaethau a dysgu o ymchwil Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, adroddiadau blaenorol ac ymarfer pobl eraill. O'r herwydd, nid ydym yn ymddiheuro dros ddisgwyl i wasanaethau fod wedi gwella ers cam cyntaf y broses arolygu.

Roedd perfformiad yn ddigon gwael i ni fod angen cynnal ail-arolygiad mewn llai na 10% o TTIau, ac fe gyflawnwyd y rhain oddeutu 12 mis ar ôl yr adroddiad gwreiddiol.

Mae'r rheiny a ail-arolygwyd yn aml yn gallu dweud i'r arolygiad fod yn gatalydd ar gyfer newid. Pan fyddwn yn ymweld am yr ail waith, gwelir gwelliannau fel arfer mewn perfformiad ar lawr gwlad a thrwy ysgogi'r Bwrdd Rheoli, lle mae craffu perfformiad y TTI wedi dod yn fwy llym ac yn canolbwyntio'n benodol ar wella. Ym mhob arolygiad namyn un, roedd perfformiad wedi gwella (yn aml o lefel annigonol) ac roedd hi'n glir y byddai trywydd perfformiad gwell yn debygol o barhau. Yn yr achosion hyn, fel arfer, cafwyd un unigolyn ar lefel Bwrdd a ysgwyddodd y cyfrifoldeb o lywio'r newid; yn y bôn, bod yn 'lladmerydd' dros achos TTI.

> *"Roedd yr arolygiad, yn fy marn i, yn gyfle cadarnhaol i mi ganolbwyntio ar y gwaith yr oedd y TTI a'r Bwrdd Rheoli yn ei wneud. Y mae anawsterau, cyfyngiadau i'w hystyried, ond bydd canlyniad yr arolygiad, gobeithio, yn gyfle i ni adeiladu ymhellach dîm effeithiol."* Aelod o Fwrdd Rheoli

Dros gyfnod y rhaglen arolygu gyfan, rydym wedi asesu oddeutu 6,500 o achosion. Er nad yw hi'n bosibl llunio cymariaethau uniongyrchol mewn agweddau penodol o'r gwaith, oherwydd y newidiadau yn ein methodoleg, ceir sawl elfen lle gwelsom welliannau dros amser.

Mae cynnwys amrywiaeth yn asesiad y plentyn neu berson ifanc wedi helpu i leihau'r rhwystrau a all eu hatal rhag manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y TTI. Felly, er ein bod yn arbennig o sensitif i fater hil yn y system cyfiawnder troseddol, ystyriwn amrywiaeth yma yn ei ffurf ehangaf, gan gynnwys hil, ethnigrwydd, iaith, anabledd a rhyw ond hefyd faterion eraill a allai 'lesteirio' gweithio ynghyd gyda'r plentyn neu berson

ifanc hwnnw. Mae'r materion hyn yn debygol o fod yn unigryw i'r unigolyn hwnnw a'i amgylchiadau, a gallant newid dros amser. Mae angen i'r asesiad gydnabod bod materion yn bodoli sydd angen rhoi sylw iddynt, er mwyn ymgysylltu â'r plentyn neu berson ifanc a galluogi'r plentyn neu berson ifanc i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n effeithio ar eu hymddygiad troseddol.

> *"Gwnaeth sgiliau a gallu'r arolygydd i ddeall achosion argraff fawr arna' i. Hefyd, roedd y cyfweliad yn gyfle ardderchog i bwyso a mesur agweddau penodol o ymarfer."* Rheolwr achos

Mae asesiadau o *Risg o Niwed i eraill* wedi gwella i ryw raddau, fel y mae adolygiadau o gynnydd – fel arfer drwy adolygu Ased a'r cynllun ymyrryd. Mae gorfodaeth wedi gwella, o ran dyfarniadau ynghylch absenoldebau derbyniol ac o ran amseroldeb cychwyn camau toramod, fel ei gilydd.

Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd hwn, erys pryderon sylweddol ym meysydd *Risg o Niwed i eraill* a *Diogelu.* Mae'r rhain yn ymwneud, ar y naill law, ag *adnabod* materion *Diogelu* - cydnabod y gall unigolyn fod yn risg (o niwed) iddynt hwy eu hunain yn ogystal ag i eraill os ydynt yn gyrru'n ddi-hid neu'n yfed alcohol, er enghraifft, ac ar y llaw arall, y *gweithredu* sydd angen ei wneud i leihau'r risgiau hynny. Mae diffiniad *Diogelu* yn Adolygiad Prif Arolygwyr 2008 yn cynnwys yr elfen bod plentyn neu berson ifanc yn cael y cyfleoedd gorau mewn bywyd, sy'n golygu bod meysydd megis rhianta, ffordd o fyw ac addysg (neu ddiffyg addysg) hefyd yn gallu bod yn berthnasol i *Ddiogelu* ac, o'r herwydd, mae angen rhoi sylw iddynt. Er inni weld gwell cydnabyddiaeth o faterion *Risg o Niwed i eraill* mewn arolygiadau mwy diweddar, prin yw'r dystiolaeth o'r gweithredu sydd angen ei wneud fel ymateb, ac mewn nifer o achosion, cafwyd dryswch rhwng hyn a'r tebygolrwydd o aildroseddu.

Ychydig o newid a fu o ran pa mor aml mae'r plentyn a pherson ifanc yn cwblhau'r hunanasesiad *Beth Wyt Ti'n ei Feddwl?* Hoffem weld mwy o reolwyr achos yn cynnwys hwn yn y broses asesu pan fyddant yn datblygu'r cynllun ymyrryd, drwy drafod gyda'r plentyn neu berson ifanc, gan fod hwn yn aml yn gallu datgelu stôr werthfawr o wybodaeth am yr unigolyn hwn.

Gwaith ataliol

Gosododd Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, am y tro cyntaf, ddyletswydd gyfreithiol ar bawb a oedd yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol i weithio i atal troseddu gan blant a phobl ifanc o oedran cyfrifoldeb troseddol (deg oed) hyd nes yr oeddent yn cael eu pennu'n oedolion (18 oed).

Pan ddechreuwyd arolygu TTIau yn 2003, roedd gwaith ataliol yn ei fabandod cynnar mewn sawl TTI. Drwy gyflwyno Onset, cyfrwng asesu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, darparwyd fframwaith ar gyfer gwaith gyda phlant a phobl ifanc y credid eu bod yn debygol o droseddu, ac roedd yn gymorth i TTIau sefydlu trothwy priodol ar gyfer ymyriadau. Diolch i nawdd pellach gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar gyfer gwaith ataliol yn 2006, rhoddwyd impetws pellach i'r gwaith hwn, gydag impetws pellach eto gan y proffil gwleidyddol uchel a roddwyd i ymddygiad gwrthgymdeithasol gan blant a phobl ifanc mewn rhai awdurdodau lleol. Er inni ond edrych ar sampl o achosion yng Ngham 3, erbyn Cam 4, roeddem wedi symud ymlaen i arolygu achosion ataliol yn fwy manwl, gan asesu a sgorio, y naill a'r llall, ansawdd y gwaith a wnaed.

Yn ôl tystiolaeth o ddata Cam 4, o'r hap-sampl hwn, dynodwyd bod 15% ag anghenion iechyd corfforol a chamddefnyddio sylweddau, gyda 50% ag anghenion emosiynol neu iechyd meddwl. Gwelwyd bod traean ohonynt yn *Risg o Niwed iddynt hwy eu hunain*, drwy ymddygiad di-hid neu fwriadol, hunan-niweidio, camddefnyddio sylwedd neu ymddygiad rhywiol. Gwelwyd bod 13% mewn *Risg o Niwed* gan eu rhieni/gofalwyr neu oedolyn yr oeddent yn ei adnabod neu'n ymddiried ynddo/i.

Cryfderau

- Roedd gan y rhan fwyaf o achosion ataliol atgyfeiriad clir wedi'i gysylltu â meini prawf y cynllun ac wedi'i wirio drwy brosesau y cytunwyd yn eu cylch yn lleol.

- Roedd bron i dri chwarter asesiadau Onset o ansawdd digonol ac wedi'u cwblhau mewn pryd, gyda bron pob un yn cynnwys cyfweliad gyda'r plentyn neu berson ifanc a'u rhieni/gofalwyr.

- Cofnodwyd ac aseswyd materion yn ymwneud ag amrywiaeth, a sefydlwyd cynlluniau i leihau unrhyw effaith andwyol.

- Gosodwyd y rhan fwyaf o achosion yn y dosbarthiad priodol o *Risg o Niwed Difrifol.* Yn yr achosion yr oedd angen gweithredu arnynt er mwyn lleihau'r *Risg o Niwed i eraill*, roedd angen asesiadau a chynlluniau rheoli *Risg o Niwed* o ansawdd gwell, a'u cyfleu'n well i eraill o fewn y TTI yn ogystal ag o fewn asiantaethau partner allanol.

- Mewn tri chwarter yr achosion lle'r oedd y plentyn wedi'i wahardd yn barhaus yn ffurfiol, roedd y TTI a'i bartneriaid wedi cymryd camau i ailintegreiddio disgyblion yn ôl i addysg lawn-amser.

Meysydd i'w Gwella

- Nid oedd 16% o blant a phobl ifanc wedi derbyn ymweliad cartref.

- Nid oedd cynlluniau ymyrryd wedi'u paratoi ym mhob achos, ac o'r rhai a oedd wedi'u paratoi, nid oedd tri chwarter ohonynt yn cynnwys amcanion a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ac nid oedd gan bedwar o bob pump ddilyniant priodol.

- Dim ond 38% o achosion oedd â strategaeth adael glir, gydag ymrwymiad gan bartner arall i ysgwyddo gwaith priodol gyda'r plentyn neu berson ifanc.

- Atgyfeiriwyd oddeutu hanner yr achosion gydag unrhyw anghenion iechyd at wasanaethau'r brif ffrwd. O'r rheiny ag anghenion emosiynol neu iechyd meddwl, ceid tystiolaeth yn y ffeil bod ychydig dros hanner ohonynt wedi derbyn ymyriad.

- Nid oedd statws achosion ataliol yn cael ei drawsgyfeirio fel mater o drefn gyda chronfa ddata gofal cymdeithasol plant; nid oedd ychwaith wedi'i gofnodi'r glir yn y ffeil ym mhob achos.

- Aed i'r afael ag anghenion bregusrwydd llai na chwarter y plant a phobl ifanc, er bod y gwaith hwn, pan oedd wedi'i wneud, ar y cyfan, wedi'i wneud yn dda. Roedd gweithio ar y cyd rhwng staff TTI a staff gofal cymdeithasol plant i ddiogelu plant yn annigonol mewn bron i hanner yr achosion perthnasol a arolygwyd.

> *"Dwi'n meddwl bod y broses gyffredinol wedi bod yn hynod gadarn, gyda chyfres o archwiliadau o bob asesiad a wnaed. Os ydych chi'n TTI effeithiol sydd wedi'i reoli'n dda, bydd y broses yn cadarnhau hynny. Rwy'n gwerthfawrogi'r arbenigedd a gynigiwyd ac rwy'n credu y byddwn yn elwa o'r profiad."* Rheolwr atal

Gwaith yn y llysoedd

Cynlluniwyd yr arolygiad TTI fel rhaglen ddatblygu ac nid oedd ei dau gam cyntaf yn cynnwys gwaith yn y llysoedd fel maes ar wahân ar gyfer gweithgarwch arolygu.

Heriodd nifer o reolwyr TTI, yn enwedig y rheiny a oedd, yn gwbl briodol, wedi gosod pwys sylweddol ar eu gwaith yn y llysoedd ac a oedd wedi sefydlu cynlluniau cefnogi mechnïaeth canmoladwy iawn, y ffaith nad oedd gwaith yn y llys wedi'i gynnwys yn y rhaglen. Yr oeddem ninnau, yn ein tro, yn dod yn gynyddol bryderus ynglŷn ag ansawdd yr adroddiadau cyn-dedfrydu a welwyd yng nghwrs y rhaglen arolygu ac roeddem am dynnu sylw atynt fel maes allweddol i'w wella yng nghamau diweddarach y rhaglen arolygu. Yn nhrydydd cam yr arolygiad felly, cyflwynwyd gwaith yn y llysoedd fel elfen graidd o'r amserlen.

Yr oeddem yn falch o weld bod pob TTI yr ymwelwyd ag ef wedi sefydlu perthnasau gwaith cadarnhaol gyda'u llysoedd lleol a bod ganddynt, ar y cyfan, enw da. Roedd ansawdd a graddfa'r gwasanaeth yn ddigonol, ac roedd yn cynnwys trefniadau ar gyfer y penwythnosau a gwyliau banc. Roedd nifer o TTIau wedi dechrau gwneud defnydd effeithiol o'u timau cefnogi drwy leoli staff gweinyddol dynodedig mewn llysoedd i helpu eu

swyddogion gyda'r gwaith o gasglu gwybodaeth. Roedd y staff cefnogi mechnïaeth yn gweithio'n galed i ddarparu pecynnau mechnïaeth hygred ar gyfer y llysoedd ac ar y cyfan, roeddent yn llwyddo i helpu plant a phobl ifanc i gwblhau eu cyfnod mechnïaeth heb dorri ei amodau.

> *"Roedd yn fuddiol cwrdd ag arolygydd mor wybodus a hawdgawr a allai herio mewn ffordd adeiladol."* Rheolwr Llys

Fel yr oeddem wedi'i ddisgwyl, fodd bynnag, roedd ein pryder pennaf am waith y TTIau yn y llys yn canolbwyntio ar ansawdd yr adroddiadau cyn-dedfrydu yr ysgrifennid am blant a phobl ifanc.

Cyd arolygiad o Dimau Troseddau Ieuenctid: Ansawdd adroddiadau cyn-dedfrydu
Cymharu Cam 3 a Cham 4



Yn wyneb pwysigrwydd yr adroddiadau hyn o ran pennu canlyniadau dedfrydu, ac yn enwedig nifer sylweddol y plant a phobl ifanc dan gaethiwed, roeddem yn teimlo bod angen rhoi sylw i'r maes gwaith hwn gan y TTIau a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, y naill a'r llall. Erbyn Cam 4, roedd asesiad mwy manwl o adroddiadau cyn-dedfrydu drwy ddefnyddio achosion a oedd eisoes yn y sampl, wedi'i gynnwys yn y fethodoleg. Yn y

cam hwn, roedd llai nag un o bob pum adroddiad cyn-dedfrydu yn cynnwys asesiad o ddymuniadau'r dioddefwr, yng nghyswllt eu parodrwydd i gymryd rhan mewn prosesau gwneud iawn a chyfiawnder adferol. O'n profiad yn ystod yr arolygiad, mae hyn yn debygol o ymwneud â'r gred gyfeiliornus ymhlith rhai ymarferwyr, yn dilyn Cyfarwyddyd Ymarfer yr Arglwydd Brif Ustus ynghylch Datganiadau Personol Dioddefwyr (16 Hydref 2001), na ddylent mwyach gynnwys gwybodaeth am ddioddefwyr yn yr adroddiad. Ond mae hyn yn ddehongliad anghywir o'r cyfarwyddyd. Mae canllawiau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ynghylch ymarfer adroddiadau cyn-dedfrydu (10 Rhagfyr 2004) yn pennu'n glir y gellir defnyddio gwybodaeth o'r fath, ond ei bod hi *ond* yn gallu cael ei chymryd o ddogfennau sydd eisoes gerbron y llys, fel arfer, datganiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron a Datganiadau Personol Dioddefwyr, ac mai dim ond gwybodaeth *newydd* na chaniateir iddi gael ei defnyddio.

Cryfderau

- Roedd gan y mwyafrif helaeth o adroddiadau cyn-dedfrydu gynnig cymunedol.
- Ystyriwyd bod tri chwarter yr adroddiadau a arolygwyd yn wrthrychol, yn ddiduedd ac yn glir o iaith wahaniaethol a stereoteipiau.

Meysydd i'w Gwella

- Nid oedd traean yr adroddiadau yn gytbwys, wedi'u gwirio nac yn ffeithiol gywir, ac nid oeddent yn gwahaniaethu rhwng y tebygolrwydd o ail-droseddu a *Risg o Niwed i eraill.*
- Roedd adroddiadau cyn-dedfrydu yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn ddadansoddol wrth ddisgrifio'r trosedd(au).
- Roedd asesiad o raddfa bregusrwydd wedi'i gynnwys yn llai na hanner yr adroddiadau, ac eto ceir tystiolaeth sylweddol bod y grŵp hwn o blant a phobl ifanc yn arbennig o anghenus am amrywiol resymau.
- Nid oedd dros draean yr adroddiadau'n rhoi sylw digonol i faterion yn ymwneud ag amrywiaeth, ac nid oedd materion iechyd neu addysg, yn enwedig gyda'r rheiny a oedd wedi'u gwahardd o'r ysgol, wedi'u hamlinellu'n ddigonol.
- Ystyriwyd nad oedd dan hanner yr adroddiadau yn ddigon cryno.
- Rhoddwyd copi o'r adroddiad cyn-dedfrydu i'r plentyn neu berson ifanc a'u rhieni/gofalwyr mewn llai na hanner yr achosion a archwiliwyd.

Rydym yn dal i fod yn bryderus ynglŷn ag ansawdd yr adroddiadau cyn-dedfrydu, gan fod eu potensial i ddylanwadu ar ddedfrydu (neu beidio) yn gallu cael effaith mor arwyddocaol ar fywyd y plentyn neu berson ifanc i'r dyfodol, a'r tebygolrwydd eu bod yn ail-droseddu. Rydym wedi mynegi pryder i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid sawl tro ynghylch y diffyg canllawiau a hyfforddiant yn y maes ymarfer hwn. Er ein bod yn cydnabod bod y Canllawiau Rheoli Achosion a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnwys cymorth ac arweiniad ynglŷn ag adroddiadau cyn-dedfrydu, bydd un o'n harolygiadau thematig ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen newydd yn canolbwyntio ar lysoedd a gwaith llys.

Plant a Phobl Ifanc sy'n troseddu

Gellir cronni gwaith y TTIau yn Lloegr yn erbyn y pum canlyniad ar gyfer plant a phobl ifanc a ddynodir yn *Every Child Matters.* Yng Nghymru, mae nodau a hawliadau cyffelyb yn bodoli ar gyfer plant a phobl ifanc fel y'u hamlinellwyd yn *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau* ac *Ymestyn hawliau: Grymuso Pobl Ifanc yng Nghymru.*

Gwneud cyfraniad cadarnhaol – drwy atal troseddu ac ail-droseddu

Roedd cyflwyno Ased gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, fel y cyfrwng asesu cyffredinol ar gyfer TTIau, yn garreg filltir arwyddocaol ym maes gwaith gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu, ac roedd camau cyntaf adolygu TTIau yn canolbwyntio ar ei weithredu. Er i ni ganfod cynnydd cyflym yng ngraddfa – ac amseroldeb – cwblhau Ased, roedd yr ansawdd cyffredinol yn amrywio'n sylweddol rhwng TTIau, ac roedd hynny'n arwydd o ddiffyg hyfforddiant yn y broses asesu a ganfuwyd ymhlith sawl gweithiwr TTI. Erbyn trydydd cam yr arolygiad, canfuwyd bod ansawdd un o bob pump o'r asesiadau Ased a arolygwyd yn dal i fod yn annigonol. Ymhellach, roedd canran yr asesiadau o ansawdd digonol yn arwyddocaol is gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi cyflawni troseddau treisgar na gyda grwpiau eraill. Ychydig o wahaniaeth ystadegol a geid yn ansawdd asesiadau rhwng plant a phobl ifanc bregus a grwpiau eraill o blant a phobl ifanc, gan awgrymu bod angen o hyd i'r rhan fwyaf o TTIau fabwysiadu agwedd gymesur tuag at weithio gyda'r plant mwy anodd. Fodd bynnag, roedd yr asesiad gweithredol o amrywiaeth wedi gwella i 'ddigonol' mewn bron i dri chwarter yr achosion a arolygwyd yng nghamau diweddar y rhaglen.

Dynodwyd pryderon am blant a phobl ifanc sy'n peri *Risg o Niwed i eraill* yn gynnar yn y broses arolygu ac, er bod hyn yn parhau'n fater arwyddocaol, mae cywirdeb asesiadau wedi gwella. Yn nyddiau cynnar arolygu TTI, nid oedd asesiad *Risg o Niwed* wedi'i gwblhau gydag un o bob pedwar plentyn a pherson ifanc a gafwyd yn euog o drosedd treisgar, ac nid oedd achosion y cyfeiriwyd atynt yn *Risg o Niwed uchel i eraill* bob tro'n cael eu cyfeirio at reolwyr yn unol â'r canllawiau perthnasol. Er gwaethaf tynnu sylw at y mater hwn, a'r ffaith mai cymharol fach oedd nifer y plant a phobl ifanc a aseswyd yn rhai *Risg o Niwed* uchel neu uchel iawn, rydym yn parhau'n bryderus, gan nad oedd, yn hanner yr achosion hyn, unrhyw gyfraniad effeithiol gan reolwyr canol neu uwch.

Er bod amlder cyswllt, a dyfarniadau am absenoldebau derbyniol wedi cwrdd â'r safonau gofynnol yn oddeutu tri chwarter yr holl achosion a arolygwyd yn ein harolygiadau cynnar, cododd hyn i 88% yn arolygiadau Cam 4. Mae camau toramod o fewn yr amserlenni gofynnol yn awr yn cael eu cymryd mewn bron i dri chwarter yr achosion, pan fydd eu hangen.

Roedd hi'n amlwg, yn nyddiau cynnar y rhaglen arolygu, nad oedd rhai gweithwyr TTI yn deall cysyniad rheoli achos ac roeddent, mewn rhai

achosion, yn weithredol wrthwynebus i gynnwys gweithwyr proffesiynol eraill yn y broses oruchwylio, gan gredu y byddai'n amharu ar ddatblygiad eu perthynas hwy eu hunain â'r plentyn neu berson ifanc. Yn ffodus, mae hyn wedi newid yn y rhan fwyaf o TTIau, er inni ganfod achosion achlysurol o'r farn hon a'r diwylliant hwn yn parhau.

Er bod ansawdd gyffredinol cynllunio goruchwyliaeth yn wael, ac mewn sawl achos, yn methu â darparu'r fframwaith strwythuredig angenrheidiol ar gyfer ymyriadau, fe welwyd gwelliannau yn yr ymyriadau a gynlluniwyd. Mae'r rhain yn awr yn fwy sensitif i faterion yn ymwneud ag amrywiaeth, yn amserol ac yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol; maent hefyd yn ei gwneud hi'n gliriach pwy fydd yn cyflawni pa ymyriadau. Roedd gan dri chwarter yr achosion a archwiliwyd yng Ngham 4 gynlluniau a adolygwyd o fewn yr amserlen safonol genedlaethol.

Er gwaethaf y pryderon sylweddol hyn, gwnaed cynnydd arwyddocaol erbyn diwedd y rhaglen arolygu. Roedd lefel yr ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn gwella a gwelsom ddefnydd cynyddol o'r ystod o ymyriadau a oedd ar gael. Roedd rhybuddion terfynol, gan gynnwys ymyriad priodol, yn cael eu cyflawni o fewn amserlen dderbyniol yn y mwyafrif helaeth o achosion, fel ag yr oedd gorchmynion atgyfeirio lle'r oedd mwy o baneli'n eistedd o fewn y safon genedlaethol o 20 diwrnod, ac roedd mwy o bwyslais yn cael ei roi ar agwedd cyfiawnder adferol a oedd yn canolbwyntio ar y plentyn.

Cryfderau

- Roedd dros dri chwarter yr Asedau'n cael eu cwblhau mewn pryd, yn unol â safonau cenedlaethol, ac roeddent yn ymgorffori cyfraniadau gan rieni/gofalwyr.

- Roedd y mwyafrif helaeth o rybuddion terfynol yn cael eu cyflwyno o fewn 20 diwrnod gwaith i'r penderfyniad.

- Roedd adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer Paneli Troseddwyr Ifanc, gydag asesiad llawn o risgiau ac anghenion, yn cael eu paratoi yn y rhan fwyaf o achosion.

- Roedd y mwyafrif o gynlluniau ymyrryd yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen briodol, roeddent yn debygol o fynd i'r afael â gwneud iawn ac atal troseddu ac roeddent yn sensitif i faterion yn ymwneud ag amrywiaeth.

- Roedd cynnydd yn erbyn yr amcanion yn y cynllun wedi'i adolygu, ac roedd ymyriadau adeiladol yn herio'r plentyn neu berson ifanc i dderbyn cyfrifoldeb dros eu hymddygiad troseddol, mewn bron i dri chwarter yr achosion.

- Cymerwyd camau i sicrhau bod y plentyn neu berson ifanc yn deall gofynion y gorchymyn a'r cosbau pe bai'n cael ei dorri mewn dros 80% o achosion.

Meysydd i'w Gwella

- Anaml iawn yr oedd Asedau wedi'u seilio ar asesiadau perthnasol eraill, a dim ond dau draean a ystyriwyd yn rhai o ansawdd digonol.
- Gwahoddwyd plant a phobl ifanc i gwblhau hunan-asesiad *Beth Wyt Ti'n ei Feddwl?* mewn llai na dau draean o achosion.
- Dim ond hanner yr achosion a archwiliwyd oedd ag ymweliadau cartref amserol a phwrpasol wedi'u cyflawni a'u hail-adrodd yn ôl yr angen.
- Ystyriwyd bod cynlluniau rheoli *Risg o Niwed* yn ddigon cynhwysfawr mewn ychydig dros chwarter yr achosion.
- Nid oedd ymyriadau'n rhoi sylw digonol i faterion o *Risg o Niwed i eraill*, a dim ond yn hanner yr achosion lle'r oedd ei angen y cafwyd cyfraniad effeithiol gan reolwyr canol neu uwch.
- Roedd gan lai na thraean yr achosion gynlluniau ymyrryd oedd ag amcanion yn canolbwyntio ar ganlyniadau, a dim ond eu hanner oedd yn rhoi sylw digonol i *Ddiogelu*.

> Gwelwyd gwelliannau yn amseroldeb ac asesiadau a chynnydd yn nifer yr adolygiadau yn ogystal â gorfodaeth amserol. Mae methu â chynnwys hunan-asesiad y plentyn neu berson ifanc yn aml yn esgeulustod difrifol. Yr ydym yn parhau'n bryderus ynglŷn â rheoli *Risg o Niwed i eraill* a *Diogelu*.

Bod yn iach

Datgelodd rhaglen arolygu TTI fod gan ganran uchel o blant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu amrywiol fathau o broblem iechyd. Roedd gan nifer - er yn gymharol fach, mae dal yn arwyddocaol - broblemau corfforol difrifol megis byddardod neu olwg gwael y dylid bod wedi eu canfod drwy'r prosesau sgrinio cyffredinol, ond na chanfuwyd hyd nes cyrraedd y TTI. Roedd gan nifer arwyddocaol, oddeutu 40%, ffurf ar anhwylder iechyd meddwl cydnabyddedig, gan gynnwys Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd ac iselder.

Datgelodd canran uchel o blant a phobl ifanc ryw ffurf ar ddefnyddio cyffuriau, ond dim ond ychydig a ystyriwyd yn ddefnyddwyr difrifol. Fodd bynnag, roedd eu hymwneud â chamddefnyddio cyffuriau wedi eu gosod ar gyrion gweithgarwch troseddol ac wedi eu gwneud, yn ddiymwad, yn fwy tebygol o ail-droseddu. Roedd alcohol yn cael effaith yr un mor andwyol ar ymddygiad, yn enwedig ymhlith merched a menywod ifanc, lle'r oeddent yn fwy tebygol o gamddefnyddio alcohol na'r gwrywod cyfatebol.

Cronnwyd y canfyddiadau hyn yn ein hadroddiad ar y cyd â'r Comisiwn Gofal iechyd, *Let's Talk About It* a gyhoeddwyd yn 2006, ac roeddent yn adlewyrchu'r rheiny a ganfuwyd yn yr adolygiad o'r system cyfiawnder ieuenctid a gyflawnwyd gan y Comisiwn Archwilio, *Youth Justice 2004.* Cyhoeddwyd cyd adolygiad pellach, *Actions Speak Louder*, ar sail achosion Cam 4, ym mis Chwefror 2009.

Er i sawl TTI ymateb yn gadarnhaol i'r sialensiau o weithio gyda'r plant a phobl ifanc anghenus hyn, roedd y diffyg ymgysylltu rhwng y TTI a'u Hymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol leol yn amlwg yn yr anghysonderau a ganfuwyd mewn darpariaeth gwasanaeth. Fodd bynnag, erbyn ail flwyddyn yr arolygiad, roedd gan fwyafrif y TTIau a arolygwyd weithiwr iechyd dan secondiad, y rhan fwyaf ohonynt â chefndir ym maes iechyd meddwl, ac roedd y llwybr at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed wedi gwella. Erbyn cam olaf yr arolygiad, roedd cynrychiolaeth rheolwyr iechyd strategol ar Fwrdd Rheoli TTI wedi gwella, er bod problemau'n parhau ynghylch mynychu a chyfrannu mewn cyfarfodydd. Gwelwyd bod adnoddau gan Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol yn parhau'n annigonol mewn bron i hanner y TTIau. Dros y ddwy flynedd diwethaf, 2007/2008, roedd 10% o TTIau yn parhau heb weithiwr iechyd meddwl ar eu safle ac roedd 30% yn brin o adnodd nyrsio iechyd cyffredinol. Roedd pobl ifanc 16 ac 17 oed, a'r rheiny â diagnosis deuol, yn wynebu anawsterau penodol o ran cael mynediad at ddarpariaeth briodol, ac mae problemau'r grwpiau hyn yn parhau.

Mae adnabyddiaeth ac asesiad cywir o anghenion iechyd wedi parhau'n annigonol gydol holl gamau'r arolygiad. Nid yw rheolwyr achos TTI yn derbyn hyfforddiant a gwybodaeth ddiweddaredig digonol gan bersonél iechyd i gyflawni asesiadau sylfaenol amserol, cyson a chywir.

Nid yw atgyfeiriadau dilynol ar gyfer asesiad gan arbenigwyr iechyd yn cael eu gwneud mewn bron i draean yr achosion lle dylai hynny fod wedi digwydd, ac mae anghenion yn parhau heb eu diwallu. Roedd hi'n destun siom na wnaeth sawl TTI fabwysiadu cyfrwng sgrinio iechyd meddwl y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, nac unrhyw agwedd ddilys arall, tan yn gymharol ddiweddar. Fodd bynnag, mae cefnogaeth ar gyfer y rheiny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau wedi cynyddu, ac mae'n fwy cyson ar gael yn awr nag yr oedd bum mlynedd yn ôl.

Dechreuodd sawl TTI heb unrhyw brotocol ffurfiol ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda'u darparwyr iechyd lleol, ac rydym wedi parhau i ganfod mai dyna'r sefyllfa o hyd yn un o bob pump TTI. Ychydig o TTIau sy'n cyflawni unrhyw fonitro systematig o ganlyniadau er mwyn asesu effaith yr ymyriadau iechyd a gynigir. Lle mae monitro ac arfarnu wedi cael eu cyflawni'n effeithiol, yn aml yn uniongyrchol berthnasol i'r dangosyddion perfformiad allweddol, gwnaed defnydd da o'r potensial i ddylanwadu ar wella perfformiad. Er enghraifft, gall adroddiadau data a gynlluniwyd yn unigol o asesiadau Ased ganfod yr anghenion sgôr uchel mwyaf cyffredin, gyda hynny, yn ei dro, yn gallu dylanwadu ar ddyrannu adnoddau.

Cryfderau

- Lle'r oedd mynychu rhagweithiol a rheolaidd yn digwydd, roedd cynrychiolwyr Bwrdd Rheoli TTI yn gallu dylanwadu'n gadarnhaol ar yr agenda iechyd.
- Roedd nifer o reolwyr achos a oedd wedi'u hyfforddi'n dda yn gallu dynodi a chofnodi anghenion iechyd ac atgyfeirio ymlaen at gymorth arbenigol, pan oedd ei angen.
- Mewn sawl achos, roedd mynediad cyflym at wasanaethau camddefnyddio sylweddau plant a phobl ifanc priodol ar gael, yn enwedig Darpariaeth Ailsefydlu ôl-ofal ar gyfer y rheiny a ryddhawyd o'r sefydliad caethiwo.

Meysydd i'w Gwella

- Roedd gallu'r TTI i fynd i'r afael â phob maes o anghenion iechyd wedi'i gyfyngu gan sgiliau gweithwyr iechyd y TTI a oedd yn aml yn rhai penodol.
- Roedd y ddarpariaeth iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed yn wael.
- Dim ond mewn hanner yr achosion perthnasol y defnyddiwyd cyfryngau asesu arbenigol ar gyfer iechyd emosiynol ac iechyd meddwl.
- Nid oedd digon o adnoddau ar gael i gwrdd ag anghenion iechyd sylweddol y plant a phobl ifanc hyn.
- Anaml yr oedd achosion lle'r oedd angen gwasanaethau iechyd, ond ei fod heb eu darparu, yn cael eu dwyn at sylw'r Bwrdd Rheoli.
- Ychydig, os o gwbl, o arfarnu a gafwyd ar fewnbwn iechyd yng nghyswllt asesu a oedd canlyniadau dymunol wedi'u cyflawni.
- Canfuom gyfnewid annigonol o wybodaeth rhwng gweithwyr TTI a staff sefydliadau diogel, yn enwedig yn ystod camau pontio.
- Roedd protocolau a chytundebau lefel gwasanaeth gwan, neu sefyllfaoedd lle nad oedd y rhain yn bodoli, yn arwain at rannu gwybodaeth wael neu annelwig.
- Roedd llefydd gwag ar gyfer gweithwyr proffesiynol wedi bodoli mewn rhai TTIau ers tro byd, gyda darpariaeth lanw wan iawn ar gyfer absenoldebau.

Mae amlygrwydd sylweddol anghenion iechyd ymlhith plant a phobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â TTIau yn awgrymu y dylid rhoi sylw penodol iddynt, o ran y rheiny a allai gael effaith ar ymddygiad troseddol yn ogystal â'r rheiny y dylid bod wedi'u canfod drwy wasanaethau prif ffrwd. Mae'n destun siom na welwyd mwy o welliannau dros y cyfnod pum mlynedd.

Cadw'n ddiogel

Er, erbyn ail flwyddyn y rhaglen arolygu, bod gwelliannau'n cael eu gweithredu gan y rhan fwyaf o TTIau a arolygwyd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn *cadw'n ddiogel*, araf oedd y cynnydd. Er bod cysylltiadau strategol rhwng TTIau a'u gwasanaethau plant lleol yn cael eu sefydlu yn y rhan fwyaf o awdurdodau, roedd lefel y cyfathrebu a'r cyfnewid gwybodaeth ar lefel weithredu'n parhau'n wael mewn sawl awdurdod. Fodd bynnag, roedd nifer gynyddol o TTIau yn dod yn rhan o'r Byrddau Diogelu Plant Lleol, ac roedd gan y rhan fwyaf bolisïau a gweithdrefnau ar droed i sicrhau bod pob aelod o staff a gwirfoddolwyr wedi bod yn destun archwiliadau uwch gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol cyn gweithio gydag unrhyw blentyn neu berson ifanc.

Yng Ngham 4, fe asesasom fod traean y plant a phobl ifanc yn *Risg o Niwed iddynt hwy eu hunain*, gyda chanran gyffelyb hefyd yn *Risg o Niwed gan eraill* - gan gynnwys rhieni/gofalwyr, oedolion yr oeddent yn ymddiried ynddynt a phlant eraill. Er gwaethaf y raddfa uchel hon o elfennau bregus, dim ond 39% o achosion a arolygwyd oedd â chynllun rheoli elfennau agored i niwed, ac roedd tri o bob pump o'r rheiny heb eu gweithredu. Lle'r oedd y rhain wedi'u datblygu, credem y byddai'r mwyafrif helaeth ohonynt yn bodloni anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

Roedd TTIau yn dod yn fwy effeithiol o ran rhannu gwybodaeth am blant a phobl ifanc agored i niwed, ac roedd gan nifer yn awr fynediad at gronfa ddata plant yr awdurdod lleol. Nid oedd y rhain yn cael eu defnyddio i'w heithaf o hyd, o ran effeithiolrwydd; yn aml, nid oedd gwybodaeth yn cael ei chofnodi na'i defnyddio at ddibenion cynllunio a goruchwylio. Roedd Plant sy'n Derbyn Gofal yn rhy amlwg yn y system cyfiawnder troseddol ac er gwaethaf ymwybyddiaeth gynyddol o'u hanghenion, ni wnaed unrhyw gyswllt â'r awdurdod lleol - y rhiant corfforaethol - mewn 14% o achosion. Y fwy diweddar, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y statws gofal cymdeithasol wedi'i gofnodi, ond mewn dros chwarter yr achosion perthnasol, ni chafwyd cyswllt rhwng y gweithiwr TTI a phersonél gofal cymdeithasol y plant.

Roedd llawer o staff heb dderbyn hyfforddiant ym maes amddiffyn plant a materion yn ymwneud â *Diogelu* ac roedd y gwendid hwn wedi'i adlewyrchu yn eu hymarfer. O ganlyniad, roedd ymddygiad 'risg uchel', a'i botensial ar gyfer cam-fanteisio rhywiol, yn amlwg yn cael ei anwybyddu mewn asesiadau risg, ac nid oedd digon o sylw yn cael ei roi i bwysigrwydd ymweliadau rhagweithiol a phwrpasol â'r cartref.

Cryfderau

- Roedd cysylltiadau cryf ac effeithiol yn datblygu rhwng y TTI a'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol, a Byrddau Rheoli Strategol Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml Asiantaeth.

- Roedd rhai TTIau yn defnyddio protocolau a threfniadau lefel gwasanaeth a oedd yn rhoi sylw i rannu gwybodaeth, cydgysylltu a threfniadau gweithio ar y cyd.

- Erbyn hyn, yr oedd gan sawl TTI fynediad uniongyrchol at gronfeydd data gwasanaethau plant ac, yn bennaf yn Lloegr, roeddent yn defnyddio'r Fframwaith Asesu Cyffredin.

- Gwelwyd cyfathrebu cynnar a pharhaus, a chyfnewid gwybodaeth yn amserol, gyda sefydliadau diogel mewn nifer o TTIau.

Meysydd i'w Gwella

- Mewn sawl TTI, ceid diffyg cynllunio strategol tymor hir yng nghyswllt sicrhau gweithlu sgilgar a gwybodus, gan gynnwys staff gwaith cymdeithasol dan secondiad gyda chymwysterau priodol.

- Er bod y sefyllfa'n gwella, yr oedd diffyg cysonder o ran darparu hyfforddiant gorfodol i'r holl staff ar wahanol lefelau o *Ddiogelu,* Plant yn Derbyn Gofal a chyfrifoldebau Gadael Gofal.

- Ychydig o dystiolaeth a welsom o gyd-gynllunio effeithiol ar gyfer lleoliadau remand wedi'u lleoli yn y gymuned.

- Yr oedd diffyg darpariaeth llety diogel, addas a gyda chefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu.

- Roedd tystiolaeth o gysylltiadau gwael gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, gyda dryswch neu ddiffyg cytundeb ynghylch cyfrifoldebau a throthwyon ar gyfer asesu ac ymyrryd, y naill a'r llall, mewn sawl ardal.

- Nid oedd traean yr achosion a arolygwyd gennym wedi derbyn ymweliad cartref.

- Nid oedd digon o sylw yn cael ei roi i drais yn y cartref, cam-fanteisio rhywiol a throseddu rhywiol ymhlith plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu.

Er bod mwy o reolwyr TTI ar Fyrddau Diogelu Plant Lleol, a bod mwy o gyfraniad strategol ym maes diogelu, roedd angen mynd i'r afael â materion gweithredol. Roedd y rhain yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer staff o ran cydnabod a rheoli materion yn ymwneud â diogelu, effaith trais yn y cartref, eglurder ynghylch trothwyon a chyfrifoldebau gyda gofal cymdeithasol plant, a gwell darpariaeth o lety addas.

Mwynhau a chyflawni a chyflawni lles economaidd

Roedd canfyddiadau'r arolygiadau cynnar yn cadarnhau pwysigrwydd y pwyslais a roddwyd ar helpu plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial yn yr ysgol a symud ymlaen yn llwyddiannus i hyfforddiant a/neu gyflogaeth. Roedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, yn gwbl briodol, wedi pennu targed uchelgeisiol o 90% o blant a phobl ifanc i fod mewn cyflogaeth, hyfforddiant neu addysg briodol er mwyn canolbwyntio sylw ar y maes gwaith pwysig hwn. Cyfeirir at y rheiny nad ydynt wedi canfod gweithgarwch pwrpasol o'r fath fel Ddim mewn Cyflogaeth, Addysg neu Hyfforddiant.

Nid yw'n fawr o syndod i ni ganfod y perfformiad gorau yn y TTIau hynny lle'r oedd gan yr awdurdod lleol le amlwg o fewn y trefniadau strategol, a lle'r oedd staff TTI a staff addysg wedi sefydlu perthnasau gwaith da. Mewn lleiafrif o TTIau, cynhaliwyd adolygiadau misol er mwyn olrhain cynnydd plant a phobl ifanc, gan gynnwys hefyd (yn Lloegr) cynghorwyr personol Connexions neu (yng Nghymru) staff Gyrfa Cymru. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion o'r hanner, nid oedd y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn bodloni'r hawliad statudol o 25 awr yr wythnos, ar gyfer y rheiny o oedran ysgol, ac roedd y cyswllt â Connexions a Gyrfa Cymru, a chyda'r asiantaethau lles addysg naill ai'n ad hoc neu'n aneffeithiol; o'r herwydd, roedd ail-integreiddio i addysg y brif ffrwd yn anghyson, ac roedd gormod o blant a phobl ifanc yn cael eu hamddifadu o unrhyw gyswllt â'u cynghorydd personol.

Dros amser, rydym wedi sylwi ar wahaniaeth yn y ddarpariaeth ar gyfer y ddau grŵp oedran – addysg statudol ac ôl-16 – gwybodaeth sydd yn awr yn cael ei chofnodi ar wahân gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r ddarpariaeth ôl-16 yn parhau i fod yn amrywiol iawn ar hyd a lled y wlad, gyda rhai TTIau yn ceisio gwneud iawn am ddiffyg mewn gwasanaethau prif ffrwd. Lle mae gwaith ôl-16 yn llwyddiannus, hyblygrwydd y ddarpariaeth a gynigir drwy'r awdurdod lleol, colegau addysg bellach, asiantaethau cyflogaeth/hyfforddiant ac ystod o ddarparwyr gwasanaethau eraill, mewn cydweithrediad â staff TTI, sy'n galluogi'r plentyn neu berson ifanc i gyflawni.

Cryfderau

- Ar Fyrddau Rheoli'r rhan fwyaf o TTIau, ceid perchnogaeth gorfforaethol effeithiol dros gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg fel blaenoriaeth bwysig, law yn llaw ag uwch-gynrychiolaeth ddigonol ar y lefel hon i wneud yr ymrwymiadau a'r penderfyniadau ynglŷn ag adnoddau yr oedd angen eu gwneud.

- Mewn sawl ardal, canfuom ystod o opsiynau dysgu a chyfleoedd yn cael eu cynnig i blant a phobl ifanc a oedd wedi'u gwahardd yn barhaol.

- Roedd datblygu prosesau cyfiawnder adferol mewn ysgolion gan weithwyr TTI er mwyn gwella ymddygiad a lleihau gwaharddiadau yn gam i'w groesawu, ac roedd wedi sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

Meysydd i'w Gwella

- Yr oedd diffyg mynediad at gyfleoedd dysgu amgen ar gyfer y rheiny a oedd o oedran ysgol statudol, ond yn enwedig ar gyfer y rheiny a oedd dros 16 oed.

- Pan oedd plentyn neu berson ifanc wedi'i wahardd yn barhaol neu pan oedd wedi bod yn absennol o'r ysgol yn gyson, dim ond mewn dau draean o achosion yr oedd y TTI wedi cymryd camau i'w ail-integreiddio.

- Ychydig iawn o TTIau a oedd wedi cyrraedd y targed o 90% ar gyfer y rheiny Ddim mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant.

- Anaml yr oedd asesiadau rhifedd a llythrennedd, gan gynnwys profion diagnostig, yn cael eu cyflawni pan ddeuai plentyn neu berson ifanc i gyswllt â'r TTI am y tro cyntaf a phan gaent eu rhyddhau o sefydliadau diogel.

Gwelwyd gwelliannau mewn asesu, a mwy o wybodaeth am y materion y gall plant a phobl ifanc sy'n troseddu eu hwynebu ar lefel addysgol, gyda rhywfaint o gynnydd o ran adnabod angen o ran arddulliau dysgu. Mae'r ffocws, drwy dargedau'r Cytundeb Gwasanaethau Cyhoeddus, ar y rhieni Ddim mewn Cyflogaeth, Addysg neu Hyfforddiant, wedi arwain at welliannau ar gyfer y grŵp hwn. Ond mae newidiadau sydd dal angen eu gwneud, yn enwedig yn y ddarpariaeth ôl-16, gan ehangu ystod y ddarpariaeth yn gyffredinol a sylweddoli bod hwn yn ddyletswydd ar awdurdod lleol, gyda chefnogaeth y TTI.

Gwaith gyda rhieni / gofalwyr

Mae'r adran hon yn rhannu'n ddwy elfen: yn gyntaf, rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu a'u cynnwys yn y gwaith y mae'r TTI yn ei gyflawni gyda'u plant ac yn ail, gwaith uniongyrchol gyda rhieni/gofalwyr i wella eu sgiliau rhianta neu yng nghyswllt perthynas a swyddogaeth y teulu.

I ddechrau, ychydig o gyfathrebu a geid rhwng y rhiant/gofalwr a'r rheolwr achos a oedd yn goruchwylio eu plant. Roedd lefel yr ymweliadau cartref yn amrywio'n sylweddol rhwng TTIau, gyda nifer braidd byth yn gweld y plentyn neu berson ifanc yn amgylchedd eu cartref, gydag eraill yn cynnal cyswllt rheolaidd gyda hwy a'u teuluoedd. Yn fwy diweddar,

rydym wedi gweld mwy o welliannau o ran rhieni/gofalwyr yn cael gwybod am gynnydd eu plant, ond erys bron i chwarter heb ymgysylltu gweithredol.

Ers cychwyn y rhaglen arolygu, canfuom sawl enghraifft dda o waith gyda rhieni/gofalwyr, a hwnnw'n aml yn cael ei wneud ar sail wirfoddol gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol eraill. Dim ond pan oedd wirioneddol raid yr oedd gorchmynion statudol yn cael eu defnyddio i sicrhau cydymffurfio. Ond hyd yn oed erbyn y cam olaf, nid oedd dros draean y rhieni/gofalwyr wedi cael eu hasesu, pan ddylai pawb, yn ein tyb ni, fod wedi'u hasesu, ac roedd llai na thraean ohonynt wedi'u hatgyfeirio ar gyfer ymyriad rhianta.

Tynnwyd sylw at y mater hwn fel pryder o bwys yn yr adroddiadau arolygu cynnar, ond dros y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi gweld rhai darpariaethau rhianta llawn dychymyg yn cael eu cyflawni ar y naill law gan y TTI (er enghraifft, yn bersonol gan reolwyr achos hyfforddedig neu gan grwpiau dynodedig a chymwysedig penodol neu weithwyr teulu) ac ar y llaw arall mewn trefniadau lle'r oedd rhieni/gofalwyr yn cael eu cysylltu â chyfleusterau lleol. Roedd darpariaeth o'r safon uchaf yn cydnabod anghenion amrywiol megis taliadau teithio, crèches ar gyfer plant iau, grwpiau penodol ar gyfer tadau, gan drefnu eu bod ar gael ar wahanol adegau o'r dydd a gyda'r nos i gydweddu â phatrymau gwaith amrywiol, gwaith ar y cyd â theulu neu waith cyfochrog gyda phlant a phobl ifanc a rhieni/gofalwyr, a chyfraniadau gan gyfoedion a mentora. Yn ddiweddar, rydym wedi gweld rhieni a ddechreuodd yn y grŵp fel cyfranogwyr, yn datblygu i fod yn hwyluswyr rhaglen da, ac yn ennill cymwysterau wrth wneud hynny.

Cryfderau

- Yn y rhan fwyaf o achosion a arolygwyd gennym, roedd staff TTI yn tynnu sylw rhieni/gofalwyr at ofynion ymyriadau eu plant a'u cynnydd yn ystod y broses goruchwylio.

- Roedd sgrinio drwy ddefnyddio Ased fel sail, a chyfryngau asesu arbenigol ychwanegol, yn cael ei gyflawni mewn sawl TTI. Gyda'r rheiny a aseswyd, roedd hyn fel arfer yn amserol ac yn dynodi ffactorau risg ac amddiffyn priodol.

- Ceid ystod o ddeunydd i hysbysu a chynghori rhieni/gofalwyr gyda sawl haen wahanol yn cynnig mynediad gwahaniaethol at gyfleoedd mewn sawl TTI.

- Roedd cysylltiadau'n cael eu gwneud gydag ystod helaeth o wasanaethau cefnogi rhianta, gan ddarparu ar gyfer gwahanol anghenion a darpariaethau, gan gynnwys clinigwyr arbenigol penodol, pan oedd angen.

- Roedd nifer o TTIau wedi helpu i sefydlu grwpiau hunangymorth a mentoriaid rhianta.

Meysydd i'w Gwella

- Roedd llawer o'r mewnbwn ar gyfer rhianta a gofalwyr yn cael eu cyllido ar sail tymor byr.
- Dim ond traean y rhieni/gofalwyr oedd yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer ymyriadau.
- Ceid diffyg sgrinio cyffredinol ac atgyfeiriadau systematig.
- Nid oedd digon o sylw'n cael ei roi i strategaethau gadael.
- Ceid cyfyngiadau yn yr ymarfer cofnodi a chyfathrebu rhwng staff rhianta a rheolwyr achos.
- Canfuom ddiffyg cyfleoedd hyfforddi ar gyfer rheolwyr achos TTI yng nghyswllt asesiadau ac ymyriadau rhianta.

Yr her sy'n wynebu sawl TTI yw cyflawni asesiadau gyda *phob* rhiant/gofalwr a chynyddu ystod, ansawdd a chapasiti eu darpariaeth (neu fynediad at eraill), ond mae'n galonogol gweld bod rhai ardaloedd yn profi bod modd cyflawni hyn. Mae gweld y plentyn neu berson ifanc fel rhan o'r teulu yn hytrach nag endid ar wahân yn bwysig iawn, oherwydd y rhyngweithiad a'r effaith ar bawb dan sylw.

Rhieni / Gofalwyr

"Bu'r (gweithiwr) yn gymorth mawr i'r ddau ohonon ni. Mae hi hefyd wedi helpu gydag anghytundebau a dadleuon y teulu."
Stockton on Tees

"Fe wnaethon ni fynd ar gwrs rhianta, a chanfod ei fod wedi galluogi i ni ail-sefydlu ein perthynas â'n mab er mwyn symud ymlaen o'r ymddygiad negyddol yr oedd pob un ohonon ni'n ei ddangos."
Bro Morgannwg

"Roedd ein gweithiwr ni yn ffantastig, roedd hi yno am sgwrs unrhyw bryd, a bob amser yn ffonio'n ôl. Fe ddaeth hi i'r tŷ i fynd drwy'r papurau, ac roedd hi'n dda iawn gyda fy mhlentyn, ac fe ddywedodd wrthon ni am ffonio unrhyw bryd os cawn ni broblemau i'r dyfodol."
Cernyw ac Ynysoedd Scilly

"Gwasanaeth angenrheidiol a phecynnau da. Darpariaeth araf, ond rhoddodd y gweithiwr rhianta drefn ar y gwallgofrwydd. Os yw'r plentyn yn wynebu problemau, mae'r rhiant hefyd – peidiwch â chymryd drosodd. Rhowch adborth, peidiwch â gwneud i mi deimlo'n ddiwerth."
Camden

"Mae'n braf cael tîm fel y TTI. Mae popeth o fewn yr un tîm, felly does dim rhaid i chi redeg o un lle i'r llall."
Bolton

Plant dan gaethiwed

Dan gaethiwed

Nid oedd cam cyntaf y rhaglen arolygu'n canolbwyntio'n benodol ar blant a phobl ifanc dan gaethiwed, ond roedd yn eu cynnwys fel rhan o'r asesiad cyffredinol o blant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu. Er i ni ganfod bod rheolwyr achos yn cyfrannu'n weithredol at brosesau ac adolygiadau cynllunio dedfryd, roedd ansawdd yr asesiadau a oedd yn sail i'r gwaith hwnnw, a'i barhad yn dilyn rhyddhau, yn destun pryder digonol i warantu craffu pellach. Penderfynwyd felly cyflwyno adran ychwanegol yn y rhaglen arolygu i edrych yn benodol ar waith gyda phlant a phobl ifanc a oedd dan gaethiwed.

Aeth ail gam yr arolygiad ati i archwilio ystod ehangach o ddangosyddion, ond cadarnhasant ein pryderon cynharach. Roedd ansawdd a graddfa gwaith cyn-rhyddhau yn briodol ar gyfer yr asesiad mewn ychydig dros ddau draean pob achos, gydag un o bob pump o'r plant a'r bobl ifanc a oedd yn cyflawni dedfryd am drosedd treisgar yn derbyn ymweliad yn unol â'r safon genedlaethol. Er i Ased, a gwybodaeth arall yn tynnu sylw at bryderon, gael eu hanfon i'r sefydliadau, yn y rhan fwyaf o achosion perthnasol, er nad pob un, ni weithredwyd gyda chanran sylweddol o'r rheiny a ystyrid yn rhai a oedd mewn perygl o hunan-niweidio. Yn yr un modd, ni chyflawnwyd asesiad *Risg o Niwed* llawn ym mhob achos perthnasol.

Gwelwyd gwelliannau o ran cyfleu'r dogfennau hyn a dogfennau eraill, megis yr adroddiad cyn-dedfrydu, i'r sefydliad diogel, yn sgîl cyflwyno'r Amlen Felen Electronig. Fodd bynnag, gwelsom sawl achlysur lle na cheir unrhyw gofnod yn y ffeil achos bod hwn wedi'i anfon.

Yng Ngham 4, ni chafodd ffactorau amrywiaeth a chamwahaniaethu eu hystyried na'u dynodi'n gyffredinol, ond pan oedd hynny wedi digwydd, sefydlwyd cynlluniau fel arfer i leihau eu heffaith. Parhaodd *Risg o Niwed i eraill* yn broblem, gyda sgrinio *Risg o Niwed Difrifol* yn dangos bod ymhell dros eu hanner yn gofyn am gyflawni un llawn. Ac o'r rhai a gwblhawyd, yr oeddem o'r farn nad oedd 45% o'r asesiadau hyn o safon ddigonol ac nid oedd dros draean ohonynt yn rhoi sylw digon trylwyr i faterion yn ymwneud â dioddefwyr. Nid oedd cynllun rheoli risg gan dros hanner y rheiny yr ystyrid yn *Risg o Niwed uchel i eraill.*

> Mae adborth gan blant a phobl ifanc mewn sefydliadau'n awgrymu y byddent yn hoffi cael mwy o gyswllt rhwng cyfarfodydd cynllunio. Er y gall hyn fod yn ddrud, yn enwedig o ran amser, canfuom mai ychydig o reolwyr achos a oedd yn ystyried ffurfiau eraill o gyfathrebu a fyddai'n helpu'r plentyn neu berson ifanc i deimlo nad oedd pawb wedi anghofio amdanynt - megis galwadau ffôn, llythyrau, cardiau, papurau newydd lleol, ffotograffau ayb.

Ar ôl rhyddhau

Mae'r pontio rhwng dalfa a rhyddhau yn hollbwysig o ran helpu plant a phobl ifanc i gefnu ar droseddu. Parhaodd ansawdd y gwaith ar ôl rhyddhau yn bryder parhaus. Canfuom fod gwaith a ddechreuwyd mewn dalfa i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddu wedi'i barhau yn y gymuned mewn llai na thri chwarter yr holl achosion. Er bod oddeutu dau draean y TTIau yn adolygu'r cynllun ymyrryd, ynghyd ag Ased ac unrhyw asesiad *Risg o Niwed i eraill* adeg rhyddhau, dim ond traean oedd yn gwneud hynny ar ôl digwyddiad o bwys. Roedd sawl TTI yn awr yn cyflwyno proses gynefino er mwyn cydnabod y newidiadau a fyddai'n digwydd adeg rhyddhau ac er mwyn i unigolion wybod yn union beth oedd yn ddisgwyliedig ganddynt.

Er ei bod hi'n ymddangos bod cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud o ran darparu gwasanaethau ym maes camddefnyddio sylweddau drwy'r rhaglenni Adsefydlu a Darpariaeth Ôl-ofal, roedd angen mwy er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at wasanaethau prif ffrwd, yn enwedig iechyd corfforol a meddyliol ar ôl eu rhyddhau. Roedd bron i dri chwarter ymyriadau yn sensitif i faterion yn ymwneud ag amrywiaeth.

Roedd gwasanaethau cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg yn amrywio'n sylweddol adeg rhyddhau, gydag ond un traean o blant a phobl ifanc â chynllun dysgu unigol yn parhau ar ôl rhyddhau, a dim ond dau o bob pump o'r rheiny'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o TTIau erbyn hyn wedi sefydlu perthnasau gwaith da gyda'u sefydliad diogel lleol a cheir tystiolaeth bod gweithwyr cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg arbenigol a chynghorwyr personol Connexions/Gyrfa Cymru yn chwarae mwy o ran yn y broses cynllunio dedfryd.

Roedd darpariaeth llety addas ar gyfer plant a phobl ifanc digartref yn dilyn eu rhyddhau o'r ddalfa yn bryder sylweddol yn y rhan fwyaf o ardaloedd, ac mae'n parhau felly, er bod rhai TTIau wedi gwella'r sefyllfa drwy eu cyfraniad yn y strwythurau Cefnogi Pobl o fewn awdurdodau lleol.

Mae amlder apwyntiadau adeg rhyddhau'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol yn y rhan fwyaf o achosion, ac mae camau ar gyfer cyflawni cydymffurfio neu orfodaeth lle'r oedd hyn yn broblem, wedi gwella. Mae diffyg ymweliadau cartref yn achos pryder, gyda bron i draean yn peidio â chael eu cyflawni o gwbl.

Cryfderau

- Roedd Asedau cychwynnol yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni safonol cenedlaethol, gyda rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys, a ffactorau cefnogol a rhag-gymdeithasol yn cael eu dynodi.

- Pan oedd anghenion amrywiaeth yn cael eu hasesu, yn y mwyafrif helaeth o achosion, roedd cynlluniau wedyn yn cael eu sefydlu er mwyn lleihau eu heffaith.

- Roeddem yn cytuno â'r dosbarthiad *Risg o Niwed i eraill* yn y rhan fwyaf o achosion.

- Roedd anghenion llety'n cael eu hasesu a'u monitro yn y mwyafrif helaeth o achosion, gyda'r rheolwr achos yn gweithio'n weithredol gydag eraill i sicrhau darpariaeth briodol.

- Roedd rheolwyr achos yn mynychu cyfarfodydd cychwynnol a therfynol y cynllun hyfforddi.

- Roedd cynlluniau hyfforddi'n mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.

- Roedd cyswllt yn ystod cyfnod caethiwed y ddedfryd yn cwrdd â'r safon genedlaethol mewn 81% o achosion.

Meysydd i'w Gwella

- Roedd safbwyntiau addysg ac iechyd y TTI wedi'u cynrychioli'n wael mewn cyfarfodydd cynllunio, a bu gweithwyr cymdeithasol o faes gwasanaethau plant yn bresennol mewn llai na hanner y cyfarfodydd cynllunio.

- Anaml yr oedd gan blant a phobl ifanc gynlluniau iechyd ac addysg i fynd gyda hwy i'r sefydliad caethiwo.

- Dim ond traean y bobl ifanc a wahoddwyd i gwblhau hunan-asesiad megis *Beth Wyt Ti'n ei Feddwl?,* er i bron bob un ei lenwi pan ofynnwyd iddynt wneud hynny.

- Nid oedd hanner y cynlluniau hyfforddi yn sensitif i anghenion amrywiaeth.

- Pan oedd y sgrinio'n dangos bod angen asesiad llawn o *Risg o Niwed Difrifol*, dim ond dau draean a gwblhawyd yn wirioneddol.

- Dim ond traean y plant a'r bobl ifanc y credid bod angen cynllun rheoli elfennau bregusrwydd arnynt oedd yn meddu ar un.

- Ni chyflawnwyd unrhyw waith ar y cyd i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag iechyd corfforol a meddyliol mewn chwarter yr achosion.

- Dim ond chwarter y cynlluniau rheoli *Risg o Niwed* a ystyrid yn gynhwysfawr, a chyda rhagor na hanner yr achosion a oedd angen un, ni cheid unrhyw gynllun o gwbl.

- Dim ond mewn chwarter yr achosion y gweithredwyd ar faterion yn ymwneud â chyflogaeth.

- Roedd nifer sylweddol o gynlluniau mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn cynnwys atgyfeiriadau at grwpiau ymddygiad troseddol na

weithredwyd arnynt. Roedd hyn yn fethiant gwirioneddol o ran darpariaeth, ac mae angen rhoi sylw brys i hyn.

- Ychydig o gynlluniau ymyrryd sy'n cael eu dilyn i fyny'n briodol, ac nid oes digon o sylw'n cael ei roi i gadw'r plentyn neu berson ifanc yn *ddiogel* a mynd i'r afael â'r ymddygiad *Risg o Niwed i eraill.*

> *"Cyfweliad meddylgar a gafodd ei gynnal yn broffesiynol."* Aelod staff

Dioddefwyr a Chyfiawnder Adferol

Er i sefydlu TTIau olygu bod modd rhoi mwy o sylw i ddioddefwyr a chyfiawnder adferol, roedd yn aml yn parhau'n gyfrifoldeb a roddid i grŵp bychan o staff a oedd, yn rhy aml o'r hanner, heb adnoddau digonol ar gyfer y gwaith y disgwylid iddynt ei gyflawni.

Roedd lefel y gwneud iawn uniongyrchol yn parhau'n isel gydol cyfnod yr arolygiad, er inni weld defnydd cynyddol yn cael ei wneud o gynlluniau gwneud iawn anuniongyrchol; cymysg oedd llwyddiant y cynlluniau hyn. Nid oedd gan lawer o'r plant a phobl ifanc a oruchwylid gan y TTI yr aeddfedrwydd emosiynol a deallusol i wneud y cysylltiad rhwng eu troseddu a'r math o waith a gynigid gan y rhan fwyaf o gynlluniau gwneud iawn anuniongyrchol heb fewnbwn sylweddol gan y gweithiwr TTI. Fodd bynnag, pan oedd y mewnbwn hwn wedi'i ddarparu, gallai'r prosiectau hyn wneud cyfraniad cadarnhaol at waith y TTI gyda phlant a phobl ifanc.

Ychydig o sylw a roddid i gynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu ynghylch effaith eu trosedd ar y dioddefwr. Roedd yn destun siom nad oedd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni fel cydran hanfodol o waith gyda nhw.

Roedd nifer o TTIau yn dechrau defnyddio cynadleddau adferol. Roedd y gwaith hwn yn gofyn am staff dynodedig hyfforddedig ond, gyda'r achosion priodol ac o gael ei drin yn sensitif, gallai wneud gwahaniaeth sylweddol i'r dioddefwr, a'u gallu i 'gau pen y mwdwl'. Roedd y cynadleddau hefyd yn ddefnyddiol er mwyn dangos i lawer o blant a phobl ifanc beth oedd canlyniadau eu gweithredoedd.

> *Eisteddais mewn ystafell gyda'r dioddefwr, ac fe wnaeth hynny i mi deimlo'n wael. Ar y pryd, dach chi ddim yn gweld sut mae'n effeithio arnyn nhw. Dach chi'n chwerthin am y peth. Ar ôl eu cwarfod nhw, mi sylweddolais i gymaint o'n i wedi eu brifo nhw.* Person ifanc

Cryfderau

- Roedd gan rai TTIau strategaeth cyfiawnder adferol gynhwysfawr, gyda chynlluniau gweithredu a phrotocolau clir.

- Ceid gwaith aml-asiantaeth ar y cyd yng nghyswllt cyfiawnder adferol gydag asiantaethau eraill mewn amrywiaeth o leoliadau megis ysgolion a chartrefi plant.

- Roedd prosesau cyfiawnder adferol yn cael eu defnyddio ar draws yr ystod o opsiynau mewn sawl TTI.

- Unwaith yr oedd cytundeb i gyfranogi mewn Panel Troseddwyr Ifanc wedi ei sicrhau, cynigid cefnogaeth briodol.

- Roedd gwneud iawn yn y gymunedol yn cael ei gynnig o fewn gofynion ac amserlenni safonau cenedlaethol.

Meysydd i'w Gwella

- Nid oedd digon o sylw'n cael ei roi i ddiogelwch y dioddefwr, nac i asesiad ac ystyriaeth briodol o anghenion y dioddefwr.

- Yr oedd prinder pecynnau ymwybyddiaeth o ddioddefwyr o safon ar draws ystod o droseddau yn cael eu defnyddio gan staff hyfforddedig.

- Dim ond mewn tri chwarter o achosion yr oedd manylion y dioddefwr yn cael eu darparu gan yr heddlu.

- Roedd llai na hanner yr holl ddioddefwyr yn cael eu gwahodd i gyfranogi mewn proses adferol. Mewn sawl TTI, ychydig o ystyriaeth a oedd yn cael ei rhoi i ffyrdd o ymgysylltu â dioddefwyr a'u hannog i gyfranogi.

- Nid oedd rheolwyr achos yn aml yn ymwybodol o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud gyda'r dioddefwr, gyda defnydd prin o'r sgriniau cofnodi dioddefwyr electronig.

Roedd ansawdd y gwaith yn amrywio'n fawr yn y maes hwn, ac er bod gan nifer o TTIau rai cydrannau'n gweithio'n dda, mewn eraill, roedd y gwaith naill ai ddim yn bodoli o gwbl, neu'n wael.

Dyfyniadau gan ddioddefwyr

'Cefais y profiad yn un buddiol iawn. Mae'r Panel Troseddwyr Ifanc yn syniad gwych, a dylai mwy o ddioddefwyr droi ato."
Wessex

"Sensitif, cyfeillgar a chefnogol."
Camden

"Mae fy merch a mi'n blês iawn â'r cymorth a gawson ni gan weithiwr cefnogi dioddefwyr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc. Cafodd pob cam ei esbonio'n drylwyr."
Luton

"Roedd y swyddog cyswllt dioddefwyr yn gefnogol ac yn broffesiynol iawn, trefnodd y cyfarfod gyda'r person ifanc yn yr uned ddiogel. Roedd yn brofiad hynod werth chweil a buddiol."
Leeds

"Helpodd y cyfarfod i dawelu fy ofnau am y person ifanc fel rhywbeth heblaw cysgod mawr du; fodd bynnag, byddwn yn dal i hoffi derbyn y llythyr ymddiheuro a addawyd i mi, er mwyn i mi deimlo ei fod yn ei feddwl."
Dwyrain Sussex

"Roedd dod wyneb yn wyneb ag ef yn sioc ... doedd e' fawr mwy na'm plentyn 10 oed ... nawr mod i'n gwybod sut mae'n edych, rwy'n teimlo'n llawer mwy diogel. Pan gyrhaeddes i adre, fe esbonies i wrth y plant mod i wedi cwrdd â'r person wnaeth ddwyn pethau o'n tŷ ni ... ac maen nhw'n llawer hapusach 'nawr."
Darlington

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gweithredwyd cam cyntaf yr arolygiad TTI yng nghyd-destun y Papur Gwyrdd *Every Child Matters (2003)*, y Mesur Plant dilynol yn 2004 ac yng Nghymru, yn *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau ac Ymestyn Hawliau: Grymuso Pobl ifanc*. Roedd nifer o awdurdodau lleol Lloegr yr ymwelsom â hwy yn ystod dyddiau cynnar yr arolygiad yn y broses o ail-alinio eu gwasanaethau plant er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc. Roedd nifer sylweddol ohonynt yn defnyddio'r achlysur fel cyfle i ail-archwilio rôl y TTI a'i sefyllfa o fewn strwythur yr awdurdod lleol, boed hynny yn y gwasanaethau plant a oedd newydd eu ffurfio neu fel rhan o'r strwythurau diogelwch cymunedol, ac i ail-ystyried rôl Bwrdd Rheoli TTI.

Lle bynnag yr oedd y TTI wedi'i leoli, roedd hi'n bwysig bod ei gyfraniad penodol tuag at atal troseddu ymhlith plant a phobl ifanc, gan weithio ar draws yr agendâu diogelwch, cyfiawnder troseddol a gwasanaethau plant, yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi, y naill a'r llall, gan yr awdurdod lleol. Yn y TTIau a oedd yn perfformio orau, dangoswyd hyn gan y llinellau clir o atebolrwydd o'r Prif Weithredwr drwy Fyrddau Rheoli cryf, gydag ymgysylltu da gan sefydliadau partner.

> Roedd y TTIau mwyaf llwyddiannus, yn nhermau'r rheiny a oedd, yn ein tyb ni, yn cyflawni'r ymarfer gorau, yn mwynhau cefnogaeth wleidyddol sylweddol gan aelodau etholedig. Roedd eu cefnogaeth yn arbennig o fuddiol i TTIau o ran eu helpu i gynnal cydbwysedd sensitif rhwng anghenion plant a phobl ifanc ac anghenion y gymuned ehangach.

Roedd hi'n anochel y byddem yn canfod gwahaniaeth sylweddol yn lefel y gefnogaeth yr oedd sefydliadau partner yn ei chynnig i TTIau. Roedd parhad adnoddau'r TTIau yn broblem barhaus i lawer; roedd secondio staff o sefydliadau partner yn amrywio'n sylweddol, ac roedd diffyg protocolau neu gytundebau lefel gwasanaeth cyfredol a oedd yn dynodi manylebau gwasanaeth yn rhan o berthnasau gwaith aneffeithiol rhwng y TTI a'i sefydliadau partner.

Canfuwyd yr ymarfer gorau yn y TTIau hynny lle'r oedd partneriaid yn chwarae rôl flaenllaw yn eu rheolaeth strategol ac yn sicrhau bod gan staff fynediad at gefnogaeth broffesiynol, hyfforddiant a datblygiad.

Wrth i'r arolygu fynd rhagddo, gwelsom y TTIau yn cael eu hintegreiddio fwyfwy i'r fframwaith gwasanaethau plant. Fodd bynnag, nid oedd cynnydd ar lefel strategol bob tro'n cael ei adlewyrchu yn y ddarpariaeth weithredol, ac roedd dryswch rhwng TTI a staff gwasanaethau plant ynghylch trothwyon atgyfeirio'n parhau'n broblem gyffredin, gan esgor ar berthnasau gwaith gwael mewn rhai awdurdodau lleol. Er i ni weld sawl cynllun ardderchog, a oedd yn brawf o waith ar y cyd rhwng TTI a staff gwasanaethau plant, roedd ansawdd y cyswllt yn rhy aml yn anghyson.

> *"[yr hyn a fyddai'n gwella'r broses arolygu fyddai]... llai o 'baranoia' ymhlith rheolwyr ymlaen llaw, yn y ddau fis neu ragor a arweiniai at yr arolygiad a oedd, yn fy marn i, yn orymateb aruthrol gan reolwyr."* Rheolwr achos

Wynebodd sawl TTI anawsterau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau prif ffrwd ar ran plant a phobl ifanc. Roedd perthnasau gydag iechyd ac addysg, a oedd yn hollbwysig ar gyfer gwaith effeithiol gyda'r rheiny a oedd wedi troseddu, yn aml yn cael eu hamlygu ar gyfer beirniadaeth. Credid bod cysylltiadau clos rhwng y TTIau ac awdurdodau addysg lleol yn hanfodol, ond nid oeddent bob tro yn amlwg. Gyda'r ymarfer gorau, roedd buddsoddi helaeth mewn cefnogaeth addysg o fewn TTIau yn sicrhau gwell canlyniadau o ran argaeledd darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a manteisio arni.

Yn yr enghreifftiau gorau, roedd perthnasau ag ysgolion yn effeithiol ac, wrth i'r arolygu fynd rhagddo, canfuom nifer gynyddol o enghreifftiau o ymarfer da lle'r oedd TTIau yn gweithio'n glos gyda'u hysgolion lleol, Unedau Atgyfeirio Disgyblion a phartneriaethau Connexions neu Gyrfa Cymru.

Er bod gan y rhan fwyaf o TTIau weithwyr iechyd wedi'u secondio o fewn eu tîm, a bod gan nifer ohonynt gynrychiolaeth briodol o'r Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol, roedd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn parhau'n broblem. O'r herwydd, roedd cyfraniad iechyd at y TTI yn aml yn annigonol, ac nid oedd neb ar gael i eiriol dros yr agenda TTI o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Datblygodd cysylltiadau rhwng y TTIau a'r heddlu wrth i TTIau ddod yn rhan o strategaethau troseddwyr mynych a throseddwyr eraill â blaenoriaeth. Fodd bynnag, roedd y llif gwybodaeth rhwng y ddau sefydliad yn amrywio'n sylweddol. Lle ceid canllawiau strategol clir, roedd gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn effeithiol ac roedd y TTIau yn cael eu cynrychioli ar fforymau gwybodaeth a thasg yr heddlu. Roedd gan y mwyafrif o TTIau gysylltiadau da â'u Partneriaethau Trosedd ac Anhrefn a'u Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol, ond nid oedd effaith ymgyrchoedd yr heddlu bob tro'n cael ei thrafod ar lefel strategol, er mwyn gallu rhagweld ac ymdopi â lefelau cynyddol o ymgysylltu.

Roedd cynrychiolaeth ardaloedd prawf ar y TTIau yn amrywio'n helaeth. Mewn rhai, roedd y gwasanaeth prawf yn cyfrannu'n sylweddol at waith y TTI, drwy secondio staff ar y naill law a thrwy weithredu ar ran y TTI ar Gorff Comisiynu Cefnogi Pobl ar y llall, yn ogystal â gweithio ochr yn ochr â'r TTI i weithredu'r Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml Asiantaeth. Mewn ardaloedd eraill, ychydig o dystiolaeth o waith ar y cyd o'r fath a welsom, ac weithiau, dim cyswllt o gwbl.

Roedd y newidiadau a welsom, hyn yn oed yn nyddiau cynnar datblygiad TTIau, eisoes wedi dechrau effeithio ar y rheolwr TTI a'i dîm/thîm. Roedd y newidiadau strategol wedi codi proffil sawl rheolwr TTI, gyda nifer ohonynt yn dechrau ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol ar draws yr awdurdod lleol fel Pennaeth Gwasanaeth. Roedd y symudiadau hyn yn tanlinellu rôl y rheolwyr gweithredol, a phwysigrwydd eu taith o fod yn uwch ymarferwyr i fod yn rheolwyr perfformiad.

> Gwnaed argraff fawr arnom gan staff niferus TTI na chollodd eu hymroddiad na'u brwdfrydedd, gan anelu at gyflawni newidiadau gwirioneddol, hyd yn oed pan oeddent yn gweithio dan amgylchiadau anodd.

Erbyn cyfnod y cam olaf, sylwasom fod statws y TTI, yn Lloegr, yn cael ei godi wrth i arolygu TTI fwydo i mewn i'r Cyd Adolygiadau Ardal. Roedd mwy o Brif Weithredwyr ac aelodau etholedig yn ymddiddori yn y gwasanaeth, ac wrth i gyfraniad Penaethiaid Gwasanaeth TTI gynyddu yn strwythurau'r awdurdod lleol, felly hefyd yr oedd elfennau strategol TTIau yn cael eu hymgorffori'n llawer helaethach yn strwythurau'r awdurdod lleol.

> *“"Roedd meysydd i'w gwella wedi eu hystyried yn dda, a'u trafod mewn ffordd ddefnyddiol ac adeiladol. Teimlais mod i wedi dysgu o'r broses (arolygu), felly roedd yn ddefnyddiol iawn."* Rheolwr

Cryfderau

- Roedd y mwyafrif helaeth o staff TTI yn teimlo bod eu rheolwyr yn gweithredu mewn ffordd broffesiynol, yn cynnig arweinyddiaeth gadarnhaol a'u bod wedi darparu goruchwyliaeth o safon, a hynny'n ddigon aml.

- Roedd TTIau yn cael eu hintegreiddio'n well i strwythurau a phartneriaethau strategol megis y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, y Bwrdd Diogelu Plant Lleol a'r Partneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn.

- Roedd y rhan fwyaf o reolwyr yn cyfleu eu polisïau a'u gweithdrefnau i staff drwy ddulliau electronaidd. Roedd hyn wedyn yn cael ei ategu gan gyfarfodydd tîm a chyfarfodydd eraill, a goruchwyliaeth unigol. Roedd ymhell dros dri chwarter y staff yn teimlo bod ganddynt lawer o wybodaeth.

Meysydd i'w Gwella

- Mae mwy nag un o bob pum plentyn a pherson ifanc yng Nghymru a Lloegr heb wasanaethau digonol i ddarparu ar gyfer eu hanghenion er mwyn eu helpu i gefnu ar droseddu. Gwasanaethau

cyffuriau oedd â'r ddarpariaeth orau, a'r ddarpariaeth waethaf oedd gwasanaethau seicoleg, iechyd a hamdden.

- Roedd bron i un o bob pum aelod o staff yn teimlo nad oedd eu hanghenion hyfforddi'n cael eu diwallu.
- Nid oedd integreiddio i Drefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml Asiantaeth, a deall y trefniadau hynny, wedi'u datblygu'n ddigonol.
- Er bod perthnasau effeithiol rhwng partneriaid yn amlwg mewn sawl TTI, nid oedd cofnod o'r berthynas hon ar ffurf protocolau a chytundebau lefel gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio'n llawn.
- Roedd llety Gwely a Brecwast yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer rhai plant a phobl ifanc. Yn ein barn ni, nid yw hyn nac yn addas nac yn ddiogel.

"Byddai'n well pe bai TTIau yn cael llai o rybudd, gan fod rheolwyr yn gosod llwyth o bwysau ar staff yn y cyfnod yn arwain at yr arolygiad, ac mae hynny'n wirioneddol ddianghenraid." Rheolwr achos

CYMRU

Er bod sawl tebygrwydd rhwng Cymru a Lloegr, ceir hefyd nifer o wahaniaethau sydd werth eu hystyried yma.

Erys gwasanaethau cyfiawnder troseddol gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae perfformiad yn cael ei fonitro drwy'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, ond mae gwasanaethau awdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau plant, yn cael eu cyllido a'u dwyn i gyfrif gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Datblygwyd Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru-Gyfan (2004) rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid fel cyd-ddatganiad o fwriad yng nghyswllt Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru. Yng Nghymru, ceir deg hawliad a saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed sy'n atseinio, ond nid yn dyblygu, y pum canlyniad yn *Every Child Matters* yn Lloegr. Mae'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth bwysig wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg yn yr ysgolion ac sy'n amlach yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith. Mae'r materion hyn yn golygu bod gan TTIau Cymru agendâu sy'n wahanol, ac yn aml yn fwy dyrys, nag agendâu eu cymheiriaid yn Lloegr.

Mae mwyafrif y TTIau yng Nghymru yn llai nag ydynt yn Lloegr, gyda nifer ohonynt yn gwasanaethu ardaloedd daearyddol helaeth. Nid ydynt yn unigryw o ran y nodwedd hon, ond y mae'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau. Cafwyd rhai gwahaniaethau arwyddocaol rhwng TTIau Cymru a Lloegr yn ein samplau. Er enghraifft, mae plant a phobl ifanc a oruchwylir gan TTIau Cymru yn dangos mwy o achosion o gamddefnyddio alcohol ond llai o gamddefnyddio cyffuriau. Dim ond 3% o gyfanswm achosion sampl Cymru oedd o darddiad hil ac ethnigrwydd du, cymysg neu Asiaidd, mewn gwrthgyferbyniad â Lloegr, lle'r oedd 18% o grwpiau du neu leiafrifoedd ethnig.

Roedd canran y TTIau yng Nghymru oedd ag angen ail arolygiad yn fwy nag yn Lloegr. Fel arfer, sbardunir ail-arolygiad gan berfformiad gweithredol gwael, a hynny'n aml wedi'i gyplysu â rheolaeth ac arweinyddiaeth gwael. Yr ydym o'r farn bod ail-arolygiad yn gallu gweithredu fel catalydd ar gyfer newid. Yr ydym yn falch o nodi bod pob ail-arolygiad yng Nghymru wedi gweld gwelliannau, a'r rheiny wedi'u cyflawni'n bennaf oherwydd bod Byrddau Rheoli TTI wedi mynd i'r afael â'r materion perthnasol a dangos arweinyddiaeth. Yn y cyd-destun hwn, mae hynny'n aml yn golygu gwneud yn siŵr bod y bobl briodol o amgylch bwrdd y Bwrdd Rheoli, bod y TTI wedi'i integreiddio i strwythurau strategol lleol eraill, bod yr adnoddau a staff hyfforddedig ar gael i weithredu'n briodol a bod y rheolwr TTI yn cael ei ddwyn i gyfrif, nid yn unig am berfformiad Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, ond hefyd am faterion pwysig eraill, gan gynnwys *ansawdd* gwaith. Mae angen i bob partner ymdrechu ynghyd, ar lefel strategol yn ogystal ag ar lefel weithredol, er mwyn sicrhau llwyddiant, ac er na allant bob tro gyflawni hyn yn llwyr yn yr amser sydd ar gael rhwng arolygiad ac ail-arolygiad, mae'n bosibl mynd i'r afael â'r prif faterion a bod â'r strwythurau yn eu lle i barhau i wella ar ôl inni adael.

Cryfderau

- Roedd asesiadau Onset amserol, o ansawdd digonol, yn cael eu cwblhau yn y rhan fwyaf o achosion.
- Roedd cyfathrebu rhwng staff gweithredol ac eraill mewn amrywiaeth o amgylchiadau'n cael ei gyflawni yn y mwyafrif llethol o achosion.
- Roedd gwaith rhianta'n gryfder, gan gynnwys asesu, ymgysylltu, a chyflawni ymyriadau.
- Roedd rhai TTIau yn darparu gwasanaethau'n gynhwysfawr drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.
- Roedd cyswllt â phlant a phobl ifanc mewn sefydliad caethiwo o fewn safonau cenedlaethol, gyda sesiynau cynefino amserol a chynhwysfawr yn cael eu darparu adeg eu rhyddhau.
- Roedd ymweliadau cartref amserol a phwrpasol yn cael eu cyflawni'n amlach nag yn Lloegr.

Meysydd i'w Gwella

- Nid oedd gwaith ataliol wedi'i ddatblygu'n ddigonol, ac roedd angen rhoi mwy o sylw i brosesau atgyfeirio clir.
- Nid oedd materion amrywiaeth yn cael eu hasesu'n weithredol mewn dau o bob pum achos atal, ac mewn bron i un o bob tri achos cymunedol a dalfa.
- Mewn bron i draean yr achosion, nid oedd cynllun ymyrryd wedi'i baratoi.
- Gyda'r rheiny a oedd wedi'u hatal yn barhaol o'r ysgol, dim ond mewn ychydig dros hanner yr achosion y gweithredodd y TTI i'w hail-integreiddio i addysg lawn-amser.
- Aseswyd bod llai nag un o bob pump o'r cynlluniau rheoli *Risg o Niwed* yn gynhwysfawr.
- Nid oedd camau toramod yn amserol o ran cael eu sbarduno na'u datrys yn ddigon aml.
- Roedd cynlluniau rheoli elfennau bregusrwydd yn cael eu cynhyrchu mewn chwarter yr achosion lle pennwyd bod angen.
- Roedd angen gwella gwaith ar y cyd rhwng staff TTI a staff sefydliadau diogel i fynd i'r afael ag anghenion cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg.

Defnyddwyr Gwasanaeth

Plant a phobl ifanc

Casglwyd barn pobl drwy holiaduron papur ac electronaidd a chyfweliadau wyneb yn wyneb. Yng Ngham 4 y rhaglen, cynhaliwyd cyfweliadau â phlant a phobl ifanc mewn sefydliad caethiwo fel mater o drefn.

Cryfderau

- Roedd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn deg ac â pharch.
- Yn y mwyafrif helaeth o achosion, roedd plant a phobl ifanc yn y gymuned yn teimlo bod gan staff TTI ddiddordeb yn eu helpu. Roedd y ffigur hwn 20% yn is ar gyfer y rheiny mewn dalfa.
- Credid bod gwelliannau o ran cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg gan y rheiny yn y gymuned.
- Roedd y mwyafrif helaeth o'r rheiny yn y gymuned yn teimlo eu bod yn llai tebygol o droseddu oherwydd eu hymwneud â'r TTI.

Meysydd i'w Gwella

- Nid oedd hi wedi cael ei gwneud yn amlwg i nifer sylweddol o blant a phobl ifanc beth fyddai'n digwydd iddynt ac i ble y byddent yn mynd yn dilyn dedfryd o gaethiwed neu remand i gaethiwed.
- Dim ond ychydig dros hanner y rheiny mewn sefydliad caethiwo a deimlai bod y TTI wedi eu helpu i gadw mewn cysylltiad â rhieni/gofalwyr.
- Ychydig dros hanner oedd yn teimlo bod y TTI wedi eu helpu i deimlo'n ddiogel mewn sefydliad caethiwo.
- Roedd llai nag un o bob pump yn gwybod sut i wneud cwyn, pe bai angen.
- Dim ond hanner oedd yn teimlo bod cynlluniau yn eu lle pan oeddent ar fin cael eu rhyddhau.

"Mae'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc yn fy nghadw i allan o drwbl, ac mae'n llenwi fy amser. Maen nhw wedi 'nghadw i oddi ar y stryd gyda'r nos a gwneud i fi ddod i gyfarfodydd ar amser."
South Tees

"Dwi wedi sylweddoli bod canlyniadau i fy ngweithredoedd, ac mae hyn yn gwneud i mi feddwl cyn gwneud rhywbeth. Dwi hefyd wedi sylweddoli bod yfed alcohol yn gallu mynd â fi ar fy mhen i drwbl, felly dwi wedi penderfynu trïo stopio yfed. Mae fy ffocws ar y coleg wedi gwella, achos dydw i ddim isio cal mwy o helynt. Mae fy agwedd at yfed wedi newid - ac mae hyn yn beth da."
St Helens

"Mi wnaeth fy ngweithiwr TTI yn siŵr bod gen i bopeth roedd ei angen arna' i. Fe ddylai hi gael tystysgrif am fod yn weithiwr TTI da, ac am roi cyngor da i bobl ifanc.
Wandsworth

"Mae cael gweithiwr TTI yn dod i 'ngweld i'n aml wedi fy helpu i deimlo'n ddiogel ac yn sicr. Dwi'n gwybod y byddai hi'n fy helpu pe bai angen unrhyw gymorth arna i, ond mae jyst cael ymweliad rheolaidd ganddi wedi gwneud i mi deimlo bod gen i gyswllt â'r byd y tu allan, ac y bydd popeth yn ok."
Waltham Forest

"Maen nhw'n siarad yr un iaith â fi – dydyn nhw ddim yn fy marnu i."
Surrey

"Mae gen i broblemau darllen, ac ers dod i'r TTI dwi wedi cael help efo fy narllen a fy ysgrifennu. Roedd gan y gweithiwr TTI lot o amser i fi. Maen nhw wedi fy helpu i gael gwaith."
Pen-y-bont at Ogwr

Camau nesaf

Ac eithrio un neu ddau o ail-arolygiadau, daeth yr arolygiad TTI i ben ym mis Tachwedd 2008. Yn wyneb nifer yr achosion a arolygwyd gennym dros y cyfnod o bum mlynedd, mae nifer o gyhoeddiadau wedi deillio o'r data a'r dystiolaeth sylweddol a gronnwyd gennym. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiad pellach ynglŷn â materion iechyd *Actions Speak Louder,* cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg a sawl briff, gan gynnwys yr hyn a welsom fel ymarfer da mewn sawl ardal. Mae'r cyfan ar gael yn awr, neu yn y dyfodol agos, ar ein gwefan isod.

O ran y rhaglen arolygu newydd, ni ragwelwyd erioed y byddai'r ail raglen hon mor eang â'r gyntaf, ond mae angen edrych ar draws y gwaith o fynd i'r afael â throseddau ieuenctid yn ogystal ag edrych arno mewn dyfnder.

Bydd Arolygu Rhaglenni Troseddwyr Ifanc yn dechrau ym mis Ebrill 2009, a bydd dwy elfen i'r gwaith:

- Arolygiad Achos Craidd a fydd yn canolbwyntio ar ***Amddiffyn y Cyhoedd*** *(Risg o Niwed i eraill* yn ogystal â'r tebygolrwydd o ail-droseddu) ac ar ***Ddiogelu*** ar draws y busnes craidd yn nhermau'r plant a phobl ifanc hynny sydd wedi troseddu. Bydd canlyniadau'r arolygiad yn bwydo'r trefniadau Asesu Ardal Cynhwysfawr yn Lloegr, ac unrhyw drefniadau cyfatebol yng Nghymru. Bydd y fethodoleg yn cynnwys asesiadau craidd a chyfweliadau â rheolwyr achos fel y broses graidd. Bwriedir i beth o'r asesu gael ei gyflawni gan aseswyr rhanbarthol (ymarferwyr a ddygir o ardaloedd eraill ac a hyfforddir gan yr arolygwyr).

- Bydd elfen arolygu thematig yr Arolygiad o Droseddau Ieuenctid yn edrych ar fater penodol yn fanwl ar draws nifer o ardaloedd, ac yn cynhyrchu casgliadau y gall pob gwasanaeth troseddwyr ifanc eu defnyddio fel meincnod ar gyfer eu hymarfer a'u harweinyddiaeth hwy eu hunain. Er y bydd asesu achosion bob amser yn elfen arwyddocaol o'r arolygiad, fe geir hefyd ffyrdd eraill o gasglu tystiolaeth.

Mae'r rhaglen gyntaf wedi dysgu llawer i ni, ac rydym wedi defnyddio'r gwersi a ddysgwyd bryd hynny cyn belled ag yr oedd hynny'n bosibl yn y rhaglen newydd. O'r herwydd, er enghraifft, rhoddir llai o rybudd, o ran rhybudd cyffredinol o'r arolygiad ar y naill law ac o ran yr achosion i'w harolygu ar y llall. Y gobaith yw y bydd hyn yn lleihau pryder yn ogystal â'r temtasiwn i dreulio llawer o amser ac arian yn codi'r achosion arolygu i safon dderbyniol. Y nod ddelfrydol yw gwella safon y gwaith yn gyffredinol, nid dim ond cael eu gweld yn 'pasio' arolygiad.

Mae cysylltiadau â Byrddau Cyfiawnder Ieuenctid wedi datblygu'n gadarnhaol dros y ddwy flynedd diwethaf, felly er ein bod yn parhau'n arolygiaeth annibynnol, rydym eisiau gweithio'n agos â'n gilydd er mwyn sicrhau nad ydym yn rhoi negeseuon sy'n gwrth-ddweud ei gilydd i'r rheiny sy'n gweithio yn y maes hwn. Er nad yw pob mater wedi'i ddatrys, ceir llawer mwy o ryng-gysylltu rhwng monitro mwy cadarn gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r argymhellion mewn arolygiadau, gyda

chynlluniau gwella arolygiadau'n cael eu hymgorffori yn eu Fframwaith Cynllunio Cyfiawnder Ieuenctid. Gan y bydd yr Arolygiad Achos Craidd yn cael ei gyflawni ar sail ranbarthol neu ar sail Cymru, bydd hyn yn galluogi'r ddau sefydliad i gyfathrebu ar lefel ranbarthol yn ogystal ag ar lefel genedlaethol.

I'r dyfodol, bydd adroddiadau arolygiadau troseddwyr ifanc yn rhan o'n Hadroddiad Blynyddol, yn hytrach nag yn cael eu cyhoeddi fel dogfen ar wahân.

http://www.inspectorates.justice.gov.uk/hmiprobation